# Y CYNLLUN BUSNES

# 2004 – 2007

## Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd Dros Gymru

WDA

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Mawrth 2004

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Rhagair | | 3 |
| Cyflwyniad | | 6 |
| 1. | Gweddnewid Economi Cymru – y cyd-destun | 7 |
| 2. | Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd | 9 |
| 3. | Cefnogi ein Cwsmeriaid | 12 |
| 4. | Troi ein Blaenoriaethau'n Weithredoedd | 24 |
| 5. | Mesur ein Llwyddiant | 46 |
| 6. | Themâu Croestorol | 50 |
| 7. | Adnoddau ac Effeithiolrwydd | 53 |
| 8. | Blaenoriaethau ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 | 59 |
| Atodiadau: | | |
| A | Crynodeb Incwm | 64 |
| B | Crynodeb Gwariant | 65 |
| C | Gwariant Rhaglenni | 66 |

## Rhagair

- Y Cynllun Busnes hwn yw'r Cynllun cyfun cyntaf i Awdurdod Datblygu Cymru ei baratoi. Mae'n tynnu at ei gilydd y Cynllun Corfforaethol 2004 – 2007 – datganiad o nodau ac amcanion allweddol yr Awdurdod ar gyfer cefnogi polisïau a thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru – a'r Cynllun Busnes blynyddol – cynllun manylach o'n gwaith, y canlyniadau a'r ffynonellau cyllid.

- Mae'r Llythyr Cylch Gwaith oddi wrth y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn gosod allan rôl yr Awdurdod mewn perthynas ag agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ei thymor pedair blynedd, fel yr amlinellir yn Cymru: Gwlad Well. Mae hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2004 – 05, sydd hefyd yn cael eu hamlinellu yn y Cynllun hwn.

- Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn ymhellach bydd yr Awdurdod hefyd yn talu sylw i Gynllun Gofodol Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, 'Pobl, Lleoedd a Dyfodol', sy'n cynnig fframwaith ar gyfer blaenoriaethu a dyrannu adnoddau ar gyfer gweithredu ac sydd hefyd yn adlewyrchu gwahaniaethau lleol. Ddechrau'r hydref byddwn yn amlinellu i'r Gweinidog fanylion o sut y bydd yr Awdurdod yn uniaethu ei weithgaredd gyda'r ddwy ddogfen sylfaenol hon.

- Bydd y broses gynllunio newydd hon, sy'n cael ei rhedeg a'i gwerthuso am gyfnod prawf o ddwy flynedd, yn cynnwys paratoi Strategaeth yr Awdurdod am y cyfnod nesaf o bum mlynedd ac ymlaen. Bydd y Strategaeth, sydd i'w drafftio yn ystod y flwyddyn i ddod, yn ystyried materion allweddol megis y cynnydd mewn cystadleuedd fyd eang, effaith technolegau newydd a pholisïau a chyllid Ewropeaidd ar ôl Rhagfyr 2006 a bydd yn cynnwys gwybodaeth oddi wrth Fwrdd yr Awdurdod.

- Nid yw'r Cynllun yn anelu at fod yn gyfarwyddol nac yn gyflawn gan fod raid i'r Awdurdod fod yn hyblyg ac yn 'chwim ei droed' er mwyn ymateb, gyda'i bartneriaid i heriau economi ddeinamig a chymdeithas ac amgylchedd yn lleol, rhanbarthol genedlaethol ac yn rhyngwladol.

- Nes bo'r Adolygiad Gwariant sydd ar y gweill ar hyn o bryd wedi'i gwblhau, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ni seilio'r Cynllun hwn ar y rhagdybiaeth na fydd cymorth grant yn newid yn ystod y tair blynedd nesaf. Gofynnwyd hefyd i ni ddefnyddio cymaint o arian yr Awdurdod â phosibl fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfeydd

Strwythurol Ewropeaidd.  Yr un pryd cawsom gyllideb ddangosol o gronfa gyllido cyfle olaf Llwybrau at Ffyniant.

- Ceisiodd y Cynllun ymateb i'r sefyllfa mewn ffordd realistig ac arloesol.  Mae'n dangos ein bod wedi ymrwymo i weithio'n fwy effeithiol a gweithio'n agosach fyth gyda'r sector preifat.

- Rydym hefyd yn rhoi ar y llwybr carlam gynlluniau sylweddol ar gyfer cynyddu buddsoddiad y sector preifat wrth ddarparu Strategaeth Eiddo ar gyfer Cymru.  Mae'r rhain yn cynnwys cynllun bond eiddo arloesol, ymestyn ein Cynllun Grant Datblygu Eiddo gyda chyllid preifat ac Ewropeaidd ac ail gyllido Technium a fydd yn rhyddhau cyfalaf ar gyfer y rhan nesaf ac yn darparu lle ar gyfer tyfu ymlaen.  Bydd angen cymeradwyaeth reolaethol a Gweinidogaethol ar gyfer rhai o'r rhain.

- Golygodd ein hymdrechion i gyfuno'r Cynllun ar gyfer 2004 – 2005 fod raid i ni gymryd penderfyniadau anodd.  Mae'r rhain yn adlewyrchu blaenoriaeth uchaf y Gweinidog o wneud y gorau posibl o Gronfeydd Strwythurol ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar allu economi Cymru.  Talwyd sylw i'r cyfleon a'r amserlenni sydd gan yr Awdurdod o dynnu allan o weithgareddau eleni, o gofio faint o ymrwymiadau cytundebol sydd gennym, a thalwyd sylw hefyd i'r effaith allai hynny ei gael ar ein pobl ac ar y rhai rydym yn eu cynnal yn y sefydliadau partneriaethol.  Rydym yn mabwysiadu proses o gynllunio busnes parhaus gan fonitro'n rheolaidd ein gweithgaredd, sut y cânt eu cyllido a beth fydd y canlyniadau a byddwn yn eu diwygio fel bo'r angen.  Rydym hefyd yn talu sylw i ail a thrydedd flwyddyn cyfnod y Cynllun yn y ddogfen hon ar lefel strategol.  Nodir y ffactorau allanol a mewnol a fydd yn dylanwadu ar ein blaenoriaethau ac amlinellir y blaenoriaethau pennaf ar gyfer 2005 – 06 a 2006 – 07.

- Effeithir yn sylweddol ar y ffordd rydym yn mesur ein perfformiad wrth i ni ymateb i'r heriau a nodir uchod.  Ni fydd y targedau strategol a osodir yn draddodiadol ar gyfer swyddi a buddsoddiad cyfalaf, er enghraifft, yn adlewyrchu'n ddigonol ein gweithgareddau, ein heffeithiolrwydd na'r canlyniadau economaidd hir dymor.  Ymrwymwn yn y cynllun hwn i adolygu ac ailsefydlu targedau mwy cyhyrog ac ansoddol ar gyfer ein canlyniadau.  Cyflwynir ein cynlluniau i ailseilio'n canlyniadau i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fis Hydref 2004.  Mae'r tabl crynodebau drosodd yn dangos y targedau pwysicaf am 2004 / 05 sy'n realistig a heriol o gofio am y dulliau arloesol o gyllido a gwneud y gorau o Gronfeydd Strwythurol gan fod gyfnod sylweddol rhwng buddsoddi a chael y canlyniadau a ddeisyfir.

| Crynodeb o Ganlyniadau Strategol: Crynswth [1] | | |
|---|---|---|
| **Targedau[2]** | **2003/04** | **2004/05** |
| Swyddi a sefydlwyd | 26,000 | 23,510 |
| Swyddi a ddiogelwyd | 22,000 | 17,500 |
| Buddsoddiad Cyfalaf/ Buddsoddiad Sector Preifat (£'000) | 1,065,000 | 700,000 |
| Dechreuadau o'r newydd | 5,750 | 5,350 |

- Mae'r Awdurdod yn edrych ymlaen at y Gweinidog yn cymeradwyo'r Cynllun hwn sy'n torri tir newydd ynghylch ffynonellau cyllid ar gyfer gweithgareddau ledled Cymru, llawer yn cael eu darparu gan neu drwy ein partneriaid. Rydym hefyd yn croesawu'r cyfle a fydd gan Bwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i nodi blwyddyn 1 y Cynllun hwn a chyflwyno sylwadau ar flynyddoedd 2 a 3. Caiff y Pwyllgor gyfle hefyd i gyflwyno sylwadau fis Gorffennaf yn y llythyr blaenoriaethau ac adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

- I grynhoi, mae'r Cynllun Busnes hwn yn anelu at gyfunioni'r gweithgareddau, adnoddau a'r canlyniadau gyda'r blaenoriaethau a osodwyd gan y Gweinidog yn ei Lythyr Cylch Gwaith. Drwy wneud hynny, rhoddir y flaenoriaeth uchaf i Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a thrwy hynny gellir cael y mwyaf posibl o fuddsoddiad preifat. Gellir dangos fod adnoddau'n cael eu symud ar gyfer y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau hyn. Bydd raid ystyried ymateb i eraill ar ôl ystyried gyda'n partneriaid, a fydd yn golygu ymateb ym ail a thrydedd flwyddyn cyfnod y Cynllun. Rydym wedi ceisio tanlinellu'r newidiadau hyn yn y Cynllun.

---

[1] Cofnodir y ffigurau hyn ar sail crynswth h.y. nid ydynt wedi'u cymhwyso i gyfrif am unrhyw bosibilrwydd o 'ddadleoli' 'ychwanegedd' neu 'ddifuddiant'.

[2] Ceir diffiniadau manwl ym Mhennod 7, adran 7.21

# Cyflwyniad

Gellir crynhoi fel a ganlyn y prif negeseuon yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2004 – 2007 a sut y maent wedi'u cynnwys ac yr adeiledir arnynt yn y Cynllun Busnes hwn:

- Atgyfnerthu a dangos ein hymrwymiad i flaenoriaethau a gwaith allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru fel a ddangosir yn 'Cymru: Gwlad Well', 'Cymru'n Ennill, strategaethau cysylltiol a'r Llythyr Cylch Gwaith (Adran 1)

- Cael y gorau o gyfathrach a gwaith ein pobl gyda'n cwsmeriaid drwy werthoedd ac ymddygiad cyffredin yn 'Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd' (Adran 2)

- Dangos sut mae'r Awdurdod yn cefnogi ei gwsmeriaid ledled Cymru (Adran 3)

- Troi'r blaenoriaethau yn Adran 1 yn weithgaredd (Adran 4)

- Mesur ein perfformiad (Adran 5)

- Dod â'r themâu croestorol o gynhwysedd cymdeithasol, cyfleon cyfartal, datblygiad cynaliadwy a dwyieithrwydd i'r prif ffrwd (Adran 6).

- Gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, yn ariannol ac yn gyfundrefnol, a bod yn effeithiol wrth eu defnyddio (Adran 7).

- Nodi'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar gynllunio yn y dyfodol ac amlinellu'r blaenoriaethau pennaf ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o'r Cynllun Busnes (Adran 8)

# 1

# Gweddnewid Economi Cymru - Y Cyd-destun

## Ein Blaenoriaethau a'n Gweithgaredd Allweddol

1.1 Mae tair dogfen sylfaenol yn sail i'r Cynllun hwn. Yn gyntaf, gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei agenda strategol ar gyfer ei dymor pedair blynedd yn 'Cymru: Gwlad Well' h.y.:

- Helpu mwy o bobl i waith
- Gwella iechyd
- Datblygu cymunedau cryf a diogel, a
- Creu swyddi a sgiliau gwell

1.2 Yn ail, mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn gosod allan rôl yr Awdurdod ynghylch yr agenda strategol hon ac mae hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2004 – 05

1.3 Yn drydydd, sefydlodd y strategaeth datblygu economaidd 'Cymru'n Ennill' y blaenoriaethau canlynol er mwyn taclo'r agenda:

**Ffigwr.1 Blaenoriaethau 'Cymru'n Ennill**

- Annog Arloesedd
- Annog Entrepreneuriaeth
- Gwenud Cymru'n Wlad sy'n Dysgu
- Hyrwyddo TGCh
- Cefnogi Busnesau
- Gosod Cyfeiriad Newydd
- Sefydlu Cymru yn y Byd
- Gwella Trafnidiaeth
- Creu Cymunedau Cryf
- Cefnogi Cymru Wledig

1.4 Mae nifer o gynlluniau a strategaethau eraill hefyd yn bwydo'r Cynllun hwn, gan gynnwys Cymru Ar Lein a Chynllun Gweithredu Band Eang Cymru, Cynllun Gweithredu Arolesedd, Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd, Partneriaeth ar Waith, Ffermio ar Gyfer y Dyfodol yn ogystal â Blaenoriaethau'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Bu'r

Awdurdod yn chwarae rôl weithredol wrth baratoi'r Cynlluniau hwn a bydd yn chwarae ei briod ran wrth eu darparu.

1.5 Dyma hefyd fydd yr achos gyda 'Chynllun Gofodol Cymru'. Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb manwl sy'n dangos cymaint o effaith allai'r Cynllun ei gael ar ein gweithgareddau gan y bydd yn darparu cyd-destun gofodol a strategol ar gyfer cynllunio a blaenoriaethu. Er enghraifft, rhaid i ni ystyried amryfal anghenion gwahanol rannau daearyddol Cymru a chyfuno ein hymdrechion yn unol â hynny. Ceir gwahaniaethau yn nifer o bobl sy'n economaidd segur, lefel sgiliau, cyfraddau cyflogau, diweithdra a'r mathau o seilwaith sydd ar gael. Mae'r Cynllun hwn felly, yn ceisio talu sylw i wahaniaethau o'r fath a chynyddu gallu ac ychwanegu gwerth ledled Cymru, gan weithio mewn ardaloedd ble mae angen yn ogystal â chyfle.

1.6 Amlinellir ein dull o ddarparu'r blaenoriaethau mwy hir dymor yn yr Adran nesaf – 'Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd'. Sonnir yn Adran 4 sut y byddwn yn troi'r blaenoriaethau hynny'n weithredoedd a sut y byddwn yn dyrannu adnoddau ar gyfer eu darparu.

# Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd 2

2.1 Mae **'Creu Llwyddiant Gyda'n Gilydd'** yn sefydlu ein hagwedd tuag at ein gweithgaredd a'n perthynas gyda'n cwsmeriaid. Mae'n adlewyrchu ein diwylliant a'n gwerthoedd craidd sydd wedi eu cryfhau gan yr ymarferiad brandio diweddar wrth gyfathrebu. Dyma'r llinyn mesur ar gyfer asesu'n barhaus ein hymddygiad a'n gweithgaredd yn ogystal â pherfformiad personol ac mewn timau. Sefydlwyd pum gwerth. Mae un gwerth craidd, angerdd, yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud, mae'r gweddill yn cefnogi hyn.

- Angerdd
  - Rydym yn angerddol ynghylch ein gwaith ac rydym yn dyheu am wneud gwahaniaeth go iawn i bobl a gwlad Cymru.

- Gonestrwydd
  - Rydym yn adeiladu cyd berthynas drwy gyfathrebu'n glir sy'n cynhyrchu ymddiriedaeth, parch a dealltwriaeth.

- Partneriaeth
  - Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm i wneud i bethau ddigwydd a chydweithio i annog llwyddiant yng Nghymru.

- Tŵf
  - Rydym yn chwilio am ddulliau o gael tŵf personol, economaidd a chymdeithasol cynaliadwy drwy arloesedd a gwelliant parhaus.

- Llwyddiant
  - Rydym yn cael canlyniadau drwy gynnig atebion effeithiol sy'n galluogi unigolion, cymunedau a busnesau i gyrraedd eu hamcanion.

2.2 Rydym wedi ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol sylweddol yn ddiweddar ac yn dal i gynyddu ein canolbwynt ar y cwsmer. Rydym yn cynnal ymarferiad datblygu a dylunio cyfundrefnol ar hyn o bryd. Un agwedd hanfodol o'r broses yw fod pobl ledled yr Awdurdod â rhan yn ogystal â'n partneriaid.

## Ein Pwrpas

2.3 Rydym yn gweithio ar ran pobl Cymru drwy helpu busnesau i ddod yn fwy cystadleuol a chreu mwy o gyfleon i unigolion mewn cymunedau bywiog.

## Ein Hegwyddorion Arweiniol

- Rydym yn cydnabod fod busnes yn yr ystyr eangaf yn cynhyrchu cyfoeth. Nid er ei fwyn ei hun y gwneir ein gwaith ond er mwyn cynnig atebion i'n cwsmeriaid a fydd yn eu cynorthwyo i gynnal eu llwyddiant.

- Rydym yn cydnabod nad yw ein ffocws ar fusnes yn unig gan fod busnesau llwyddiannus yn gweithio mewn cymunedau sy'n ffynnu ac yn cyflogi a datblygu unigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny. Credwn mai rôl yr Awdurdod yw helpu i greu amgylchedd y gall busnesau, cymunedau a phobl Cymru ffynnu ynddo.

- Dim ond pan fydd methiant amlwg neu fwlch yn y farchnad y byddwn yn ymyrryd. Bydd raid i ni gychwyn a chyfannu, nid dyblygu, darpariaeth y sector breifat a, ble bynnag y bo'n bosibl, defnyddio lluosogion megis cyrff a rhwydweithiau busnes a gweithwyr a chynghorwyr busnes.

- Rydym yn derbyn na allai'r Awdurdod wneud hyn i gyd ar ei ben ei hun. Credwn mewn gweithio mewn gwir bartneriaeth gyda phob partner yn cydnabod eu rôl a'u cryfderau eu hunain ac yn cael y gorau posibl o'r gwaith ar y cyd. Mewn rhai achosion rydym yn un o nifer o bartneriaid, mewn achosion eraill, ble mae gan yr Awdurdod arbenigedd penodol, rydym yn arwain yn gadarn. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid er mwyn annog cynllunio a darpariaeth mwy cydlynol, yn enwedig gydag chyrff cyhoeddus eraill yn derbyn nawdd y Cynulliad megis Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cenedlaethol ELWa a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn ogystal â chyda Fora Economaidd Rhanbarthol, Partneriaethau Cronfeydd Strwythurol, Awdurdodau Lleol, Fora Sectorau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol a phartneriaid eraill. Rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru fod yn bartneriaid strategol yn y broses arloesedd gan fanteisio ar eu cryfderau a'u partneriaethau gyda mannau eraill.

- Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'n partneriaid allweddol i drafod a symud materion ymlaen ar lefel strategol a gweithredol. Er enghraifft ffurfiolwyd a llyfnhawyd y berthynas gyda Chyngor Cenedlaethol ELW a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru drwy sefydlu grwpiau llywio a grwpiau gweithredu ar y cyd ar gyfer darparu cynlluniau gweithredu ac sydd wedi'i cytuno gan y Gweinidogion perthnasol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Croeso Cymru a r brosiectau mawr yn eu sector allweddol e.e. bidiau Amcan 1 oddi wrth fuddsoddwyr preifat. Defnyddir dulliau tebyg gyda Chymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru a awdurdodau lleol unigol a thrwy ein haelodaeth o Ffora Economaidd Rhanbarthol.

- Byddwn yn asesu ein gwaith a'n perfformiad yn barhaus er mwyn cael y fantais fwyaf i'n cwsmeriaid ac yn gwneud y gorau o'n hadnoddau dynol, ariannol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

- Rydym wedi ymrwymo i sefydlu'r themâu croes dorrol o ddatblygiad cynaliadwy, cynhwysedd cymdeithasol, cyfleon cyfartal – gan gynnwys yr iaith Gymraeg – ym mhopeth y byddwn yn ei wneud. Mae hyn yn rhan hanfodol o'n prosesau cynllunio, penderfynu, darparu gwasanaeth a mesur perfformiad. Dim ond drwy ddod â'r themâu hyn i'r prif ffrwd drwy gyfuno ein gweithgareddau y byddant yn effeithio'n briodol ar ein cwsmeriaid ac yn cyfrannu tuag at welliannau mewn ffyniant, ansawdd bywyd a'r amgylchedd ledled Cymru.

- Rydym yn cydnabod fod ein sail cwsmeriaid yn amrywiol. Er fod ein cwsmeriaid yn gweithredu fwyfwy mewn marchnad ryngwladol eto mae'n rhaid i'n cefnogaeth adlewyrchu anghenion, cyfleoedd a graddfeydd lleol. Rhaid iddo ddangos lefelau gwahanol o gyfranogaeth gan gynnwys unigolion a chymunedau a fydd angen cymorth i adeiladu eu gallu a help er mwyn iddynt ddod i ddeall yn well beth yw eu hanghenion, y gefnogaeth sydd ar gael a sut y gellir ei ddefnyddio.


2.4 Mae'r egwyddorion hyn yn arwain ein gwaith ac o gymorth i ni ddewis ble y gallwn ychwanegu'r mwyaf o werth ar gyfer ein cwsmeriaid. Yn yr adran nesaf byddwn yn disgrifio ein hagwedd tuag at gefnogi'n cwsmeriaid.

# 3

## Cefnogi'n Cwsmeriaid

3.1 Cwsmeriaid yr Awdurdod yw busnesau, cymunedau a phobl Cymru. Nid yw'r grwpiau cyffredinol hyn yn annibynnol ar eu gilydd ond maent yn rhyngweithio i wahanol raddau yn ôl amgylchiadau mewn mannau penodol. Canlyniad eu rhyngweithio yw nifer o weithgareddau.

**Ffigwr 3.1**
**Ein Cwsmeriaid**




3.2 Er mwyn gwneud y gorau o'n hadnoddau rhaid i ddod i ddeall yn well nodweddion ac anghenion ein cwsmeriaid a'r math o gefnogaeth sy'n ymateb orau i'r anghenion hynny. Byddwn yn gweithio dargedu a gweithio'n well gyda'n cwsmeriaid ac i wella ein gallu i fesur yn effeithiol ganlyniadau ein cefnogaeth. Heblaw ein helpu i gael y gorau wrth ddyrannu adnoddau bydd hyn yn ein galluogi i nodi a rhannu ymarfer gorau, i flaenoriaethu ac yn ein helpu i ffurfio'r math a'r lefel briodol o weithgareddau cefnogol. Ystyrir y cyfan o'r ffactorau hyn yn fanylach isod.

### Cefnogi Busnesau

3.3 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn galw ar yr Awdurdod i gynyddu effeithiolrwydd ei gefnogaeth yn sylweddol i gwsmeriaid busnes yng Nghymru ynghŷd ag i fuddsoddwyr mewnol. At y dibenion hyn, byddwn yn gwella ein hymrwymiad â'r cwsmeriaid hyn ymhellach drwy'r canlynol:

Ymrwymiad Cwsmer Newydd

Daw cwsmeriaid newydd i'r Awdurdod drwy amryw o lwybrau, gan gynnwys:

- Llygad Busnes – sy'n darparu gwybodaeth ac arwyddbost diduedd i'r busnesau i gyd
- ymatebion i farchnata, targedu a rhwydweithiau rhagweithiol yr Awdurdod
- cael eu hailgyfeirio gan ddarparwyr ar gontract, partneriaid a sefydliadau/canolwyr eraill sy'n gweithredu yn y farchnad cefnogi busnes
- gweithgaredd Dechrau Busnes Newydd (sy'n cael ei gyflwyno ar lefelau sy'n briodol i'r potensial am dyfiant).

• Cymorth a Chyngor Cyffredinol

Darperir hyn i amrediad eang o fusnesau ar lefelau sy'n briodol i'w potensial am dyfiant/dylanwadu ar yr economi. Cyflwynir y cymorth hwn drwy:

- Gwasanaeth Cyngor Busnes Cyffredinol – sy'n cael ei gyflwyno'n hyblyg ar draws tair lefel o gefnogaeth eang
- Rheolaeth Cyfrif Awdurdod – yn darparu'r lefel uchaf o gefnogaeth ar gyfer busnesau strategol bwysig. Y Rheolwyr Cyfrif yw'r rhyngwyneb hanfodol gyda'n cwsmeriaid, ac mae eu nifer yn y dyfodol, setiau sgiliau, gofynion hyfforddi, gwybodaeth cynnyrch a gwasanaethau a systemau cefnogi yn agwedd bwysig ar y cynllun cyfundrefnol ac ymarfer datblygu.

• Cefnogaeth Arbenigol

Mae hyn yn cynnwys amrediad eang o gymorth – yn amrywio o gymorth gydag arloesedd a masnacheiddio i weithgareddau mewn sectorau penodol neu gefnogaeth gyda phynciau penodol, er enghraifft gyda marchnata, ymchwil a.y.b. Caiff ei gyflwyno drwy amrywiaeth o raglenni ac offer nawdd, bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu yn weithredol a rhesymoli er mwyn symleiddio a chynyddu hyblygrwydd ein hymatebion i'n cwsmeriaid.

3.4 Mae cefnogaeth busnes **portffolio cynhyrchion a gwasanaethau** presennol yr Awdurdod, a gynigir yn uniongyrchol i gwsmeriaid, wedi'u grwpio o dan y categorïau hyn. Cânt eu cyflawni gan ffurfiau cymorth eraill, megis darpariaeth safleoedd ac adeiladau, sy'n cyfuno i greu ymatebion wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer busnesau.

| Ffigwr 3.2 | |
|---|---|
| **Cefnogaeth Busnes Newydd** | Hwyluso a chefnogi sefydlu busnesau newydd |
| **Cyngor Cyffredinol** | Cyngor Datblygu Busnes Cyffredinol ar gyfer Busnesau Newydd a rhai Sefydledig |
| **Cefnogaeth Arbenigol** | |
| **Yn cynnwys:** | |
| **Cyngor / Ymgynghoriaeth Arbenigol** | Cyngor/Ymgynghoriaeth Arbenigol a/neu mentora |
| **Cefnogaeth TGCh** | Cefnogaeth TGCh / e-Fusnes |
| **Cymorth gyda Newyddbethau a R&D** | Darparu cyngor a chefnogaeth Dyfeisiau Newydd a Thechnoleg |
| **Cymorth gyda Masnachu ac Ymchwilio** | Cefnogaeth rhyng-fasnachu ac ymchwilio |
| **Cyfleusterau Deora gyda neu heb Gyngor / Cefnogaeth arall** | Cyfuniad o incwm a chyfalaf, darpariaeth cyffrredinol ac arbenigol |
| **Cymorth Ariannol** | Nawdd grant dewisol i gynorthwyo busnesau ymgeiswyr (mewn amgylchiadau diffiniedig) i ddatblygu / neu aros yn gystadleuol |

3.5 Deall beth sy'n penderfynnu agweddau pobl fusnes au Cymu wedi yw canolbwynt yr ymarferiad **segmentiad Marchnad** sydd ar y gweill. Galluogodd hyn ni, am y tro cyntaf, i gael cipolwg ar y canfyddiadau a'r ffactorau ysgogol y tu ôl i feddwl busnesau Cymru. Drwy grwpio'r ffactorau hyn ynghyd rydym yn dod i ddeall gwahanol segmentau'r farchnad sydd yn ei dro'n rhoi gwell dealltwriaeth i ni o fusnesau yng Nghymru. Dros gyfnod y cynllun hwn byddwn yn datblygu'r model segmentiad hwn, gan gydweithio'n agos agos â'n partneriaid, i'n galluogi ni i dargedu a chyflwyno cefnogaeth yn well.

3.6 Wrth gwrdd ag anghenion cefnogaeth arbenigol busnesau, y nod yw symud tuag at fodel cyflwyno sy'n galluogi cwsmeriaid i brynu'r gefnogaeth arbenigol y maent ei angen. Asesir y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen a'i chyfiawnhau drwy broses farnu gofalus a chyson sy'n ystyried deunydd adolygu busnes, diwydrwydd dyladwy ariannol a rheolaethol, effaith ychwanegu gwerth gan ystyried i ba segment o'r farchnad a sector diwydiannol y mae'r cwmni'n perthyn. Bydd cwsmeriaid sy'n derbyn cefnogaeth yn gwneud hynny ar sail rhannu risg a chyfrifoldeb.

3.7 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn nodi y dylai'r Awdurdod, wrth gefnogi ei gwsmeriaid busnes ymhellach, ddatblygu a dechrau gweithredu strategaethau sy'n cael eu harwain gan ddiwydiant ar gyfer y pedwar sector blaenoriaeth. Byddwn yn edrych ar y Diwydiannau Creadigol, Modurol, Awyrofod, Electroneg a Gwasanaethau Ariannol yn ystod y flwyddyn nesaf.

3.8 Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ddiwydiannau technoleg a hwyluswyd gan y Fforwm Electroneg yn rhagflaenydd i ymarferion tebyg ar gyfer sectorau eraill. Mae'n nodi materion penodol a chyffredinol ac yn galw am ymatebion ar y cyd rhwng y sector cyhoeddus a diwydiant yn y tymor byr, canolig a hir. Dangosir y 10 Sector Allweddol yn y tabl isod. Dylid nodi nad yw Gwasanaethau a Nwyddau Amgylcheddol yn cael eu trin fel sector ar wahân, ond yn croestorri nifer o'r Sectorau Allweddol hyn. Er enghraifft, yn Fodurol drwy'r Economi Hydrogen, yn Nhwristiaeth drwy eco-dwristiaeth, ac ym Mwyd Amaeth ac Adeiladu. Dylid nodi hefyd nad ar y sectorau hyn yn unig y canolbwyntir ein cefnogaeth.

**Ffigwr 3.3 Sectorau Allweddol**

| |
|---|
| Electroneg |
| Twristiaeth |
| Modurol |
| Awyrofod |
| Diwydiannau Creadigol |
| Cemegau/Cyffuriau/Biowyddoniaeth |
| Gofal Cymdeithasol |
| Adeiladu |
| Gwasanaethau Ariannol |
| Bwyd Amaeth |

3.9 Ceir gwybodaeth ynglŷn â'n cwsmeriaid hefyd drwy gyswllt a dialog o ddydd i ddydd gyda busnesau, eu cyrff cynrychioliadol a TUC Cymru, ynghyd â thrwy ein haelodaeth o'r Ffora Economaidd Rhanbarthol. Bydd hyn i gyd, ynghyd â systemau rheoli gwybodaeth a chwsmer priodol, yn cyfuno i ddarparu'r meini prawf ar gyfer ein cysylltiad, a lefelau'n cefnogaeth, gyda busnesau.

3.10 Wrth chwarae ein rhan llawn wrth ddatblygu mentrau caffaeliad Llywodraeth Cynulliad Cymru, byddwn yn gwella cyfle ein cwsmeriaid busnes i gael cytundebau yn y sector cyhoeddus.

3.11 Byddwn yn adolygu ein polisi prynu ar gyfer arfer caffaeliad o fewn Awdurdod Datblygu Cymru.. Byddwn hefyd yn sicrhau y defnyddir y Wefan Caffaeliad Genedlaethol ar gyfer hysbysebu cyfleoedd cytundeb yn y

categori is-OJEC allweddol – cytundebau gyda gwerth o rhwng oddeutu £50 mil a £154 mil – ac y bydd cynllun hyfforddi ymarfer prynu ar gyfer staff allweddol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.  Byddwn yn adolygu mentrau'r Awdurdod ar gyfer datblygu Mentrau Bach a Chanolig a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, er mwyn sicrhau fod ein cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaethau sy'n fwyaf perthnasol i'w galluogi i dendro'n effeithio ar gyfer cyfleoedd yn y sector cyhoeddus a bod bylchau yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu nodi'n yn glir.

3.12 Byddwn yn parhau i arwain ar ddau brosiect Arloeswyr Gwerth Gwell Cymru.  Byddwn yn gweithio'n agos gyda Thîm Menter Caffaeliad Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfnod 2 Gwefan Caffaeliad Genedlaethol, gyda datblygu swyddogaeth e-dendro ar y wefan.  Tra bydd Menter Caffaeliad Genedlaethol yn arwain ar ddatblygu ymarfer prynu a chaffaeliad yn y sector cyhoeddus, bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo'r wefan i Fentrau Bach a Chanolig ac yn cynnal gweithdai hyfforddi ledled Cymru ar yr arfer gorau wrth dendro.  Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r sector fwyd ar ddatblygu modelau cydweithredu wrth dendro ar gyfer contractau sector cyhoeddus.

3.13 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith hefyd yn datgan fod yr Awdurdod yn parhau i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol o dramor, gan ganolbwyntio'n llym ar ymdrechu i gynyddu cyfran y farchnad. Byddwn felly yn parhau i ddethol ein hymdriniaeth buddsoddiad mewnol sydd wedi'i thargedu mewn marchnadoedd y gallwn ni gystadlu drwy gynigiadau arbennig, ac mewn marchnadoedd a sectorau newydd wrth iddynt ymddangos.  Golyga hyn asesu yn rheolaidd ein gweithgareddau tramor ac yng Nghymru sy'n darparu cefnogaeth i'r farchnad. Yn ystod cyfnod y Cynllun byddwn yn ymdrechu i gynyddu ein cyfran yn y farchnad buddsoddiad mewnol, sy'n cynnwys buddsoddiad uniongyrchol tramor symudol, ehangiadau gan fuddsoddwyr presennol ac edrych am gyfleoedd cefnogaeth eraill o fewn grŵp rhiant cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru.

3.14 Bydd ein hymdrechion buddsoddiad mewnol yn parhau yn y marchnadoedd a sectorau sydd wedi bod yn dda wrth Gymru'n draddodiadol.  Yn nhermau marchnadoedd, mae Gogledd America, Gogledd Asia, Ewrop a'r Deyrnas Unedig wedi bod yn gyfranwyr sylweddol a byddwn yn adeiladu ar yr enw da mae Cymru wedi ennill yn y marchnadoedd hynny. Bydd y sectorau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys, awyrofod, modurol, electroneg, cyffuriau, dyfeisiau meddygol, gwasanaethau ariannol a gwasanaethau busnes a bydd y pwyslais ar gyfleoedd o ansawdd uchel, tra'n peidio ag anwybyddu cyfleoedd mwy traddodiadol,.

3.15 Ychwanegir at yr ymdrechion hyn gan ei gweithgareddau yn Asia a'r hyn a ellir ei alw yn farchnadoedd sy'n ymddangos, megis Tsieina a'r India. Yn ychwanegol, byddwn yn adeiladu ar y marchnadoedd hyn i gyd ac ar y cyfleoedd y mae Cymru yn cynnig i gwmnïau sydd ynghlwm â datblygu meddalwedd, opto-electroneg, biodechnoleg ac amrywiaeth o ddiwydiannau sy'n ychwanegu llawer o werth. Byddwn hefyd yn nodi ac yn dilyn cynigion realistig yn nhermau ail-leoli Llywodraeth o fewn y Deyrnas Unedig ac yn datblygu'r posibilrwydd y mae dadreoli yn cyflwyno.

3.16 Byddwn yn parhau i gymryd ymdrinin yn rhagweithiol â'r dasg o nodi a throsglwyddo rhagolygon. Bydd ein hymdrechion yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gweithgareddau cynhyrchu arweiniol, rhwydweithio, marchnata, cysylltiad mewn digwyddiadau allweddol, cynnal seminarau a chyswllt parhaus gyda buddsoddwyr sydd eisoes wedi buddsoddi yng Nghymru, er mwyn cymryd mantais o unrhyw gynlluniau ail-fuddsoddi allai ymddangos. Byddwn hefyd yn cymryd mantais o'r dylanwad all Gweinidogion y Cynulliad ei gael ar benderfyniadau a wneir gan fuddsoddwyr mewnol. Byddwn yn cyflawni hyn wrth i Weinidogion gwrdd â chwsmeriaid yn y farchnad ac yma yng Nghymru.

3.17 Mae ein gwaith i ledaenu'r rhaglen Technium yn parhau. Mae Technium I, y Technium cyntaf i'w sefydlu, yn llawn gyda nifer o denantiaid yn symud i i ofod mwy yn y Technium II gerllaw. Mae'r gwaith adeiladu ar y Technium Digidol ar Gampws Prifysgol Cymru, Abertawe wedi'i gwblhau ac mae'r galw am le eisoes yn fwy na'r ddarpariaeth. Mae'r Technium Optic a CAST yng Ngogledd Cymru yn agosáu at gael ei gwblhau ynghyd ag addasu'r adeilad ym Marina Aberystwyth ar gyfer Tchnium Aber. Mae cytundeb ar fin cael ei osod ar gyfer adeiladu Auto-Technium yn Nafen, ger Llanelli.

3.18 Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn diweddaru ei Strategaeth gyffredinol ar gyfer lledaenu Technium yng ngoleuni'r cynllun ail-ariannu (gweler Adran 7), sy'n datblygu'r cysyniad Technium Cyfryngau, Technium Morgannwg arfaethedig yn Nantgarw, Trefforest a darpariaeth gofod tyfu. Sicrhawyd cyllid ar gyfer Technium Technoleg Cynaliadwy ym Mharc Ynni Baglan ger Port Talbot, lle mae'r gwaith adeiladu ar fin dechrau. Hefyd mae trafodaethau'n parhau gyda Chomisiwn y Mileniwm ynglŷn â dyfodol Bio-Technium yng Ngerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru.

3.19 Mae gan ddarparu'n effeithiol gymaint i'w wneud â'r *ffordd* rydym ni'n cyflwyno a *beth* yr ydym ni'n cyflwyno. Er mwyn darparu i'n cwsmeriaid o ddifrif, mae'n rhaid ein bod ni'n gallu gweithio gyda'n partneriaid, ar ddatrysiadau arloesol ac amserol, sy'n aml yn gofyn am integreiddio gwahanol fesurau cefnogi sydd wedi'u teilwra i anghenion unigol. Gall yr hyn allwn ei gynnig gael ei ddarparu o gynnyrch neu wasanaeth unigol neu

gyfuniad ac mae'n rhaid gallu mesur y canlyniad, gan y dylai wneud gwahaniaeth gweladwy i'r cwsmeriaid.

3.20 Mabwysiadwyd dull newydd tuag o gyflwyno gyda'r prosiect yn Sain Tathan. Roedd cysylltiad gwreiddiol yr Awdurdod mewn ymateb i fygythiad i ddyfodol Awdurdod Atgyweirio Awyrennau Amddiffyn yn Sain Tathan. Mae ei ddyfodol bellach yn sicr ac mae gwaith ar droed ar 'uwch hanger' gwerth miliynau o bunnau, ochr yn ochr â sicrhau'r safle gan yr Awdurdod, a'r cynigion am Barc Awyrofod. Mae'r ymdriniaeth trawsawdurdod rhagweithiol, wrth weithio'n agos â'r cwsmeriaid, yn fodel ellir ei chymhwyso ar gyfer safleoedd strategol eraill e.e. Parc Aberporth a sectorau allweddol, ac mae'n rhywbeth y byddwn ni'n symud ymlaen yn ystod y cyfnod Cynllunio.

## Cefnogi Cymunedau

3.21 Mae adfywio cymunedau ledled Cymru'n rhan annatod o weithgareddau'r Awdurdod. Mae'n rhan anhepgor a chydorfodol o ddatblygiad economaidd. Mae'n rhan o fusnes craidd yr Awdurdod, drwy gynorthwyo i greu amgylchedd gwell i fusnesau ffynnu a thyfu.

3.22 Er mwyn i adfywio fod yn llwyddiant hir dymor rydym yn cydnabod fod yn rhaid iddo gael 'perchnogaeth' a chysylltiad cymunedol, drwy weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol ac awdurdodau sector cyhoeddus, gyda grwpiau cymunedol a chyda chyrff gwirfoddol.

3.23 Mae'r Awdurdod wedi bod ynghlwm ag adfywio ffisegol am nifer o flynyddoedd, drwy adennill tir, eiddo, gwelliannau amgylcheddol, adfywio trefol a gwledig a gweithgareddau eraill. Ym mis Mai 2000, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Bolisi Adfywio Cymunedol, yn nodi'r angen i edrych ar adfywio ehangach a'r angen i sicrhau cysylltiad cymunedol. Mae'n seiliedig ar ymdriniaeth 'cronfa feddalwedd' sydd nid yn unig yn tynnu ar amrediad o gefnogaeth busnes sydd ar gael a rhaglenni cyfalaf megis darpariaeth eiddo, adennill tir a gwelliannau amgylcheddol, ond hefyd yn cydnabod yr angen am feithrin gallu a ffurfiau cymorth meddalach eraill.

3.24 Mae 'cronfa meddalwedd' adfywio cymuned yr Awdurdod yn darparu cefnogaeth i gynyddu gallu cymunedau er mwyn iddynt ddyfeisio a chyflwyno eu cynlluniau gweithredu eu hunain. Anogir ymdrinin yn gyfannol wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn, gan gydnabod y byddant yn hir dymor wrth natur. Mae gwead ffisegol a rhwydwaith cymdeithasol ardal yn gyfraniadau pwysig i'w llwyddiant wrth ddenu a chadw datblygiad economaidd. Mae'n rhaid cael cymunedau hyderus, cydlynol a bywiog ar gyfer gweithgaredd brodorol, arloesol a mentrus. Mae adfywio cymunedau sy'n wynebu amddifadedd economaidd a chymdeithasol yn ganolog i

ddatblygiad economaidd ehangach ac mae'n gofyn am ymdrechion cyfunol cymunedau a'r sefydliadau sy'n eu gwasanaethu.

3.25 Bydd yr Awdurdod, drwy'r gynnig y teclynnau priodol, yn defnyddio ei raglenni i gefnogi gweithgareddau fel rhan o gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer adfywio cymunedau. Fe all hyn gynnwys cefnogaeth ar gyfer meithrin gallu, mentrau cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol. Ynghŷd â chwarae rhan yn y 'cymunedau mewn angen' hyn, mae'r Awdurdod hefyd yn cynorthwyo 'cymunedau cyfleoedd'. Mae'r rhain yn aml yn fannau sydd wedi'u nodi drwy weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a chyrff eraill. Gall ein gweithrediadau gynorthwyo i fywiogi'r ardaloedd, trefi a lleoliadau hyn ac, felly, yn gynyddu eu cyfraniad tuag at ffyniant economaidd a chynnig gwell ansawdd bywyd i'w bobl. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn datblygu Strategaeth ar gyfer ein gweithgareddau adfywio, a fydd yn cynnwys blaenoriaeth lleoliadau ar gyfer cefnogaeth yr Awdurdod yn ystod y pum mlynedd nesaf.

3.26 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn cyfeirio'n benodol at gefnogaeth yr Awdurdod yn y Gymru Wledig, yn sicrhau ein bod yn neilltuo cyfran addas yn ein rhaglenni prif ffrwd ledled y Gymru Wledig. Rydym hefyd yn hwyluso cyflwyno Gweithru Cymunedol Gwledig, rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cefnogi adfywio cymunedau gwledig ac meithrin gallu. Mae hefyd yn hwyluso cyflwyno Erthygl 33 o'r Cynllun Datblygu Gwledig sy'n cefnogi adfywio sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Rydym hefyd yn chwaraewr allweddol mewn ffurfio Strategaethau Cymunedol sy'n cael eu harwain gan yr Awdurdod Lleol ac sy'n dod ag awdurdodau a sefydliadau pob sector ynghyd i greu a gweithredu cynlluniau hir dymor ar gyfer y cymunedau o fewn ardal pob Awdurdod Unedol . Y nod yw cydgyfeirio ac integreiddio'r Strategaethau hyn yn well gyda Chynlluniau'r Awdurdod a'i bartneriaid fel y targedir gweithgareddau ac adnoddau ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

## Cefnogi Unigolion

3.27 Adlewyrchir pryder ynghylch y lefel o weithgaredd economaidd yng Nghymru ym mlaenoriaethau 'Cymru – Gwlad Well'. Wrth gynyddu a lledaenu ffyniant mae angen i ni ddenu pobl sy'n economaidd segur i mewn i'r farchnad lafur, yn ogystal â symud y rhai sydd mewn gwaith yn uwch i fyny'r gadwyn werth, ac wrth wneud hynny, greu cyfleoedd swyddi ychwanegol yn gyffredinol. Mae'n gwaith adfywio cymunedol yn chwarae rôl wrth helpu i fynd i'r afael â diffyg gweithgarwch, fel a nodir uchod.

3.28 Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn nodi annog entrepreneuriaeth fel blaenoriaeth. Mae'r Awdurdod yn targedu unigolion allai ddod yn entrepreneuriaid gyda chefnogaeth cyn cychwyn. Er mwyn cynyddu'r nifer o

bobl sy'n mynd ymlaen i gychwyn busnes, rydym wedi ymgymryd ag ymgyrch eang 'Oherwydd Y Medrwch' sy'n hybu newid diwylliannol, ac yn meithrin y gallu i gychwyn drwy gynyddu hyder, cymhelliant a dealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael. Rhennir y boblogaeth cyn cychwyn yn ôl demograffeg sy'n disgrifio gwahanol anghenion cefnogaeth unigolion; ac yn ôl cymhelliant, gan ddisgrifio entrepreneuriaid arfaethedig fel entrepreneuriaid a orfodwyd, y rhai sy'n hunan-wella, y rhai sy'n gweld cyfleoedd a'r rhai sy'n ucheleisiol. Yn ogystal, targedir anghenion penodol grwpiau sydd wedi'u tan-gynrychioli mewn busnes drwy raglenni Potentia a Menter Merched Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, siaradwyr Cymraeg, pobl ifanc, 50+, rhieni sengl a merched.

3.29 Cyflenwir anghenion cefnogi wrth gychwyn yr holl grwpiau hyn drwy'r **Rhaglen Cychwyn Busnes Newydd.** Mae'r Awdurdod yn contractio'r gwaith hwn yn lleol er mwyn bod yn ymatebol i amodau cymdeithasol ac economaidd lleol.

3.30 Anogir newid diwylliannol yn y tymor hwy drwy ein gwaith partneriaeth gyda'r sector addysg. Er enghraifft, mae prosiect **Dynamo** yn adeiladu cysylltiadau cryf rhwng entrepreneuriaid sy'n fodelau rôl ac ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn galw ar yr Awdurdod i gefnogi cryfhau rôl y sector addysg uwch mewn datblygu economaidd yng Nghymru. O ganlyniad i hynny mae'r gwaith hwn yn ymestyn i'r sectorau addysg uwch (ac addysg bellach) lle mae'n ychwanegu at ac yn atgyfnerthu rhaglenni gwaith i annog menter ac entrepreneuriaeth ymysg myfyrwyr, gan gynnwys Graddio i Fenter, Rhaglen Menter i Raddedigion Ifanc a'r Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth.

3.31 Mae'r rhaglen Technoleg ac Arloesedd yn gweithio fwyfwy gydag unigolion. Er enghraifft, mae mwy na 600 o arloeswyr wedi'u cofrestru gyda **Rhwydwaith Arloeswyr Cymru.**

3.32 Rydym wedi parhau i gefnogi gwaith **Canolfan Gydweithredol Cymru** a'i gwasanaeth cynghori arbenigol i grwpiau o unigolion a sefydliadau sy'n dymuno sefydlu busnes cydweithredol. Rhoddir cymorth ar bob cam datblygu, o gychwyn busnes newydd i gynllunio olyniaeth a staff yn prynu'r cwmni.

3.33 Gan weithio mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Economi Gymdeithasol, gwnaed ymarfer mapio i sefydlu nifer y mentrau cymdeithasol yng Nghymru, y sectorau y maent yn gweithredu ynddynt, sawl unigolyn a gyflogir ganddynt a sawl gwirfoddolwr sy'n ymwneud â hwy. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r ymchwil a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Anghenion Busnes Mentrau Cymdeithasol , wedi datblygu'r Cynllun

Gweithredu Mentrau Cymdeithasol sy'n ceisio gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r sector a'r unigolion oddi mewn iddo. Yn sail i hyn bydd concordat rhwng yr Awdurdod a'r Sector Gwirfoddol.

**Cefnogaeth i'n Holl Gwsmeriaid**

3.34 Yn ogystal â'r mathau pendol o gefnogaeth rdym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, mae nifer o'n gweithgareddau yn cynnig cefnogaeth gyffredinol i'n *holl* gwsmeriaid. Darperir ystod eang o gefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol gan swyddfeydd rhanbarthol yr Awdurdod. Darperir cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau drwy amrywiaeth o raglenni a dulliau ariannu megis grant gwella eiddo busnes, ac yn anuniongyrchol drwy grant cyllid datblygu, grantiau datblygu eiddo, mentrau ar y cyd a datblygu eiddo ymlaen llaw ar gyfer sectorau diwydiant allweddol. Darperir cefnogaeth i gymunedau drwy raglenni fydd yn cynnwys grantiau buddsoddi adfywio a mentrau ar y cyd yn y sector cyhoeddus, yn aml fel rhan o ddull 'Pecyn Gwaith'.

3.35 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae ein rôl wedi symud i ffwrdd o ddatblygu uniongyrchol i hwyluso a dylanwadu ar fuddsoddi preifat, nid yn unig mewn adeiladu a thrwy werthu eiddo, ond yn gynyddol drwy fuddsoddi mewn isadeiledd, a mentrau ar y cyd a chefnogi datblygiadau gyda grant. Wrth i'r farchad newid, rydym hefyd wedi sylweddoli nad yw ein portffolio o safleoedd ac eiddo o reidrwydd yn unol â gofynion diweddaraf y farchnad. Rydym felly wedi cynnal astudiaeth tir cyflogaeth gynhwysfawr sy'n sail i Strategaeth Eiddo newydd i Gymru. Mae hyn yn unol â'r cais yn y Llythyr Cylch Gwaith i'r Strategaeth Eiddo gefnogi 'Cymru : Gwlad Well' a Chynllun Gofodol Cymru, gan cael y mwyaf posibl o rôl i'r sector cyhoeddus a sicrhau cydbwysedd teg o ran buddsoddi rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, o ystyried y potensial uwch i gynnwys y sector preifat yn y cyntaf. Ceisir cael caniatâd cynllunio ar gyfer daliadau eiddo'r Awdurdod nas sydd bellach yn rhai strategol, lle y bo'n briodol, a'u gwerthu am bris y farchnad.

3.36 Mae gan Wasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol yr Awdurdod gyfrifoldeb hir sefydledig dros baratoi Astudiaethau Argaeledd Tir Tai blynyddol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yng Nghymru, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn iddynt gael cyflenwad treigl o odir ar gyfer tai am bum mlynedd. Paratoir yr astudiaethau hyn gyda chefnogaeth yr awdurdodau lleol, yr adeiladwyr tai a phartïon perthnasol eraill. Ar wahân i hynny, er mwyn sicrhau fod y system gynllunio yng Nghymru yn llwyr ymatebol i anghenion y sectorau preifat a chyhoeddus, rhoddir ymateb ystyriol ynghylch y Cynlluniau Datblygu Unedol sy'n cael eu paratoi gan yr Awdurdod fel Ymgynghorai Statudol.

3.37 Defnyddiwn ein hawliau i gael teitl glan a phrynu gorfodol i gynorthwyo gyda chasglu a datblygu safleoedd. Yr amcan yw cefnogi cynlluniau sy'n cynnig buddiannau economaidd, cymdeithasol cynaliadwy i fusnesau, cymunedau lleol ac unigolion ledled Cymru. Yn aml trefnir hyn drwy friffiau datblygu ymrwymol, sy'n mynnu safonau a chynlluniau cymeradwy ar gyfer darparu isadeiledd, adeiladau, cyfleusterau cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol.

3.38 O safbwynt datblygu gwledig, daw'r cyllid Cynllun Adfer Gwledig i ben yn 2004 / 05. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo nifer o raglenni penodol ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan cynnwys Leader+, Gweithredu Cymunedol Gwledig, Adwerthwr Gwledig ac Erthygl 33, fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon. Mae'r Awdurdod hefyd yn bartner allweddol yn Fforwm Coetir Cymru ac ar hyn o bryd mae'n cadeirio ac yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer un o'i weithgorau, gan ganolbwyntio ar ddatblygu economaidd yn y sector. Dylid pwysleisio ein bod, yn ogystal â gweithredu rhaglenni penodol a rhai a dargedir, fel y rhain ac er enghraifft rhaglenni eraill megis Cyswllt Ffermio, yn ceisio sicrhau fod pob rhaglen prif ffrwd. h.y. cynnal busnes, adfywio cymunedol, a datblygu tir ac eiddo yn berthnasol i Gymru Wledig ac yn cael eu cyflenwi yno.

3.39 Yn unol â phrif flaenoriaeth y Gweinidog o gael y mwyaf posibl o Gronfeydd Strwythurol i gyflenwi targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Awdurdod yn cydlynu ceisiadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat ar gyfer mesurau seilwaith ynni ac ynni glân Amcan 1.

3.40 Ffurfiolir = ein cyswllt â chwmnïau cyfleustodau er mwyn sicrhau y ceir gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch cynigion yr Awdurdod a'i bartneriaid ar gyfer datblygu safleoedd er mwyn gwella gwybodaeth ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

3.41 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Swyddfa Ynni benodedig gyda staff arbenigol yn Swyddfa Ranbarthol De Orllewin yr Asiantaeth, o dan gyfarwyddwyd y Cyfarwyddwr Gweithredol sydd â phrofiad helaeth yn y sector. Wrth gynllunio'r ymarfer hwn rydym wedi nodi'n benodol pa adnoddau dynol fydd eu hangen er mwyn cyflenwi amcanion y Swyddfa Ynni. Datblygodd y swyddfa Strategaeth Ynni, sy'n ceisio adeiladu ar ar bob maes pwysig Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn gweithio'n agos â Swyddfa Arian Ewropeaidd Cymru ac Ymddiriedolaeth Carbon i gael y mwyaf posibl o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ym mhob un o weithgareddau'r Swyddfa Ynni.

3.42 Wrth ymgyrchu am effeithlonrwydd ynni llawer gwell byddwn yn chwarae ein rôl yn llawn wrth gyflenwi Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni 'Arbed Ynni Cymru', yr ymgynghorir yn ei gylch ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid megis Ymddiriedolaeth

Carbon a Rhwydweithiau Arena er enghraifft, drwy sefydlu hybu effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff yn arferion busnes cadarn wrth gefnogi ein cwsmeriaid busnes. O safbwynt amrywiaeth o ran datblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a mawr, byddwn yn ymestyn ein partneriaethau gydag, er enghraifft, Ymddiriedolaethau Groundwork a'r Comisiwn Coedwigaeth lle rydym yn nodi safleoedd addas ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir a fydd hefyd yn defnyddio'r mwyaf posibl o adnoddau a gwasanaethau lleol. Drwy ein perthynas waith agos gyda busnesau a'n gwybodaeth o safleoedd i'w datblygu, rydym yn annog gwelliannau isadeiledd ynni e.e. datblygiad LNG yn Hwlffordd ac rydym yn trafod yn gyson â'r cwmnïau dosbarthu ynni. Wrth geisio cyrraedd y targedau lleihau carbon diocsid ar gyfer 2020 rydym yn hybu adeiladwaith carbon isel ar gyfer eiddo diwydiannol, a'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl trosglwyddo stoc tai cymdeithasol.

3.43 Er nad oes gan yr Awdurdod Gylch Gwaith uniongyrchol ar gyfer cludiant fe'i gwelir yn ffactor allweddol mewn datblygu economaidd ac adfywio ehangach. O ganlyniad i hynny, er enghraifft, rydym gyda mewnbwn i'r ymgynghoriad i lwybr dewisol a swyddogaethau ar gyfer creu ffordd ddeuol ar ffordd Blaenau'r Cymoedd. Yn ogystal, rydym yn aelod weithgar o sawl un o is-grwpiau Cludiant y Ffora Economaidd Rhanbarthol, ac rydym yn hybu cyfraniad y rhwydwaith meysydd awyr lleol i ddatblygu economaidd.

3.44 Mae **Cyllid Cymru**, fel is-gwmni sy'n gyfan gwbl ym mherchnogaeth yr Asiantaeth, yn bodoli er mwyn darparu cyllid i fusnesau yng Nghymru sydd angen gyllid i gychwyn ac i dyfu ac nad yw ar gael gan ffynonellau eraill. Daw'r cyllid benthyca ac ecwiti hwn law yn llaw â rhaglen gefnogi gynhwysfawr i helpu'r rheolwyr lwyddo gyda'u strategaethau busnes. Yn fusnes sy'n cychwyn yn ehangu neu'n fusnes olyniaeth ceir ystod o raglenni cefnogi i gyd-fynd ag anghenion y busnes. Gwneir y penderfyniadau buddsoddi ar sail meini prawf ynghylch hyfywdra a pha mor fasnachol yw pob prosiect.

## Ystod ein Cefnogaeth

3.45 Mae'r Awdurdod yn gweithredu ystod eang o weithgareddau ar gyfer grwpiau gwahanol o gwsmeriaid. Amrywia hyn o gefnogaeth sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol ac 'ychwanegu gwerth' at fusnesau a'n heconomi i gefnogaeth sy'n fwy hir dymor ac a fydd yn galluogi unigolion a chymunedau ledled Cymru i ymateb i gyfleoedd yn ystod y blynyddoedd i ddod, drwy'r hyn yr ydym wedi'i alw yn 'meithrin gallu'. Mae'r ddau fath o weithgareddau yr un mor berthnasol i'n hamcanion ac ni ddylid eu hystyried ar eu pennau'u hunain. Dros gyfnod y Cynllun byddwn yn ceisio pennu cydbwysedd priodol, ac wrth wneud hynny byddwn yn llunio mesurau priodol o ran blaenoriaethu a mesur a monitro perfformiad. Mae Adran 5 y Cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r pwnc hwn yn fwy manwl.

# Troi ein Blaenoriaethau'n Weithredoedd

4

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r Cynllun Busnes hwn yn adeiladu ar ein Cynllun Corfforaethol 2004 – 7 ac yn nodi prif weithredoedd, allbynnau a ffynonellau cyllid yr Awdurdod ar gyfer y Flwyddyn Ariannol nesaf o safbwynt cefnogi'r blaenoriaethau yn y Llythyr Cylch Gwaith. Byddwn yn gweithio ar fanylion ein gweithgareddau, allbynnau a chyllidebau ar gyfer 2005-06 a 2006-07 yn ystod y misoedd nesaf.

4.2 Mae ein proses gynllunio yn ceisio cwrdd â blaenoriaethau Cymru gyfan drwy ddyfeisio gweithredoedd sy'n ymateb i gyfleoedd, anghenion ac arbenigrwydd lleol.

4.3 Ar y tudalennau canlynol rydym yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol ym mhob un o feysydd y Rhaglenni hyn, ynghyd â'r cyllid a'r allbynnau, gan gyfeirio'n benodol at y blaenoriaethau yn y Llythyr Cylch Gwaith.

4.4 Cefnogir llawer o'r gweithgareddau hyn gan gyllid sylweddol yr Undeb Ewropeiadd sy'n dangos mai'r flaenoriaeth yw cael y mwyaf posibl o fudd economaidd o'r Cronfeydd Strwythurol. Bydd llawer o'r gweithgareddau hefyd yn anelu at ddenu buddsoddiad sylweddol o'r sector preifat. Ceir gwybodaeth fanylach ynghylch cyllid ac allbynnau yn Adran 7 ac yn yr Atodiadau.

4.5 Mae'n gynyddol wir fod gweithgareddau o dan benawdau gwahanol yn cyfuno ac felly'n darparu cefnogaeth wedi'i deilwra'n arbennig i gwsmeriaid. Wrth ryngweithio rhwng y tri grŵp o gwsmeriaid ceir sawl enghraifft o ddod â gweithgareddau at ei gilydd er mwyn helpu i ddarparu atebion cynhwysfawr a chynaliadwy. Er enghraifft, drwy'r pecyn adfywio cymunedol, mae Cynnal Cymunedau yn defnyddio ystod o raglenni a chefnogaeth yn dibynnu ar yr anghenion a'r cyfleoedd.

Seilir ein Rhaglenni Gweithrediadol ar ein grwpiau Cwsmeriaid:

| Grŵp Cwsmeriaid | Rhaglenni Gweithrediadol | Penawdau'r Cynllun Busnes |
|---|---|---|
| A. Busnesau Cystadleuol | a) Cefnogaeth Fusnes Gyffredinol | Datblygu Menter<br>Cyfradd Geni Busnesau<br>Llygad Fusnes |
| | b) Cefnogaeth Fusnes Arbenigol | Cadwyni & Rhwydweithiau Cyflenwi<br>Arloesedd a Thechnoleg<br>Cyllid Cymru<br>Bwyd<br>Cymdeithas Wybodaeth a'r Cyfryngau<br>Eiddo at y Diben<br>Buddsoddi Mewnol (ail-fuddsoddi) |
| | c) Isadeiledd Busnes | Eiddo Ymlaen Llaw<br>Datblygu safleoedd |
| B. Cymunedau Bywiog | a) Cefnogaeth i Gymunedau | Cynnal Cymunedau<br>Gwelliannau Amgylcheddol<br>Adfer tir<br>Adnewyddu Trefol a Gwledig |
| C. Cyfleoedd i Bobl | a) Cefnogaeth i Unigolion | Cyfranogiad (gweithgareddau wedi'u hanelu at gynyddu cyfranogiad pobl yn yr economi) |
| D. Rhaglenni Corfforaethol | a) Rhyngwladol<br>b) Marchnata<br>c) Gwasanaethau Datblygu Tir a Chyfreithiol<br>d) Datblygu Strategaeth<br>e) Adnoddau Dynol ac Ariannol | |

.

## A. Busnesau Cystadleuol

### a) Cefnogaeth Fusnes Gyffredinol

Noda'r Llythyr Cylch Gwaith y dylid gwellan sylweddol effeithlonrwydd cefnogaeth fusnes i fusnesau sy'n tyfu ac i fusnesau newydd drwy wella, rhesymoli a chydlynu rhaglenni'r Awdurdod a gweithio mewn partneriaeth â chyrff allweddol eraill a'r sector preifat i gyflawni'r nod hwn.

Cyflawnir hyn drwy wella cefnogaeth a chyngor busnes drwy systemau a gwasanaethau symlach a llai biwrocrataidd, e.e. Llygad Busnes a'r Gwasanaeth Cynghori Busnes Cyffredinol.

Data Ariannol Allweddol (£000s)
*Cyfanswm gwariant ar Gefnogaeth Fusnes Gyffredinol 2004-5 £32,057*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004 -5 £,000 Gwariant |
|---|---|
| Llygad Fusnes | £5,536 |
| | |
| Cyfradd Geni Busnesau | £6,215 |
| | |
| Datblygu Menter: | |
| Cefnogaeth Cynghori Busnes Cyffredinol | £8,550 |
| Ymddiriedolaeth y Tywysog | £525 |
| Cychwyn Busnesau Newydd | £7,057 |
| Uned Genedlaethol CGE | £620 |
| Gwasanaethau Diagnostig ac Ymgynghori Arbenigol | £1,000 |
| Arall | £2,554 |

Data Allbwn Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a grëwyd | 8,650 |
| Swyddi a ddiogelwyd | 2,220 |
| Cychwyn Busnesau Newydd | 4,200 |
| Busnesau a Gynorthwy-wyd | 8,490 |

b) Cefnogaeth Fusnes Arbenigol

Mae Cefnogaeth Fusnes Arbenigol yn canolbwyntio ar wella cystadleuedd drwy gefnogi sectorau a chlystyrau twf newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, gan gryfhau sail technolegol sefydliadau busnes ac addysg, cefnogi'r defnydd o TGCh, darparu cyllid ecwiti a benthyciadau, cefnogi cwmnïau mewn cadwyni cyflenwi, datblygu adeiladau wedi eu hadeiladu'n arbennig a rhychwant o raglenni 'Amaeth-Bwyd'.

(i) Cadwyni a Rhwydweithiau Cyflenwi
Yn cefnogi cwmnïau i fod yn gystadleuol mewn cadwyni cyflenwi trwy hwyluso mynediad at raglenni effeithlonrwydd; a chynyddu gwerth y cyfleon busnes, gan cynnwys cytundebau'r sector cyhoeddus, sydd ar gael i, ac yn cael eu sicrhau gan, fusnesau Cymru.

Data Ariannol Allweddol (£000au)
***Cyfanswm y gwariant ar gyfer Cadwyni a Rhwydweithiau Cyflenwi*** ***£6,666***

| Enghreifftiau o Weithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Cyflymu Cymru | £1,472 |
| Clystyrau OEM Cyflymu Cymru | £730 |
| Sector Ffora | £536 |
| Ennill Busnes | £440 |
| Siop Cytundebau Cyflenwyr Lleol | £1,002 |
| Datblygiad Adweithiol | £550 |
| Adeiladu Cymru | £309 |
| Arall | £1,627 |

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 1,125 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 950 |
| Gwerth Cyfleon £'000 | 702,500 |
| Gwerth Cytundebau £1000 | 59,175 |

ii) Rhaglenni Arloesedd a Thechnoleg
Mae'r llythyr Cylch Gwaith yn rhoi blaenoriaeth i yrru darpariaeth Cymru o Blaid Arloesi yn ei flaen. Mae'r WDA wedi cael y dasg o gyflenwi elfennau allweddol y Cynllun Gweithredu Arloesi ac mae hefyd wedi cael y cyfrifoldeb o reoli'r Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth. Mae'r gweithgareddau hyn, ynghyd â gyrru'r rhaglen Technium a gweithredu casgliadau'r rhaglen Technolegau'r Dyfodol a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn ffurfio sail gweithgareddau Arloesedd a Thechnoleg y WDA eleni.

## Data Ariannol Allweddol (£000au)

**Cyfanswm y gwariant ar gyfer Rhaglenni Arloesi a Thechnoleg 2004-5** **£39,025**

| Enghreifftiau o Weithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| CETICS | £2,250 |
| OPTIC | £2,268 |
| CAST | £831 |
| ECM2 | £1,254 |
| Canolfan Gyfnewid Arloesi Cymru | £650 |
| SMART Cymru (Rhaglenni) | £8,000 |
| Rhaglenni Datblygu Technoleg | £2,201 |
| TGCh | £1,060 |
| Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth | £9,500 |
| Canolfan Cyfathrebu Technoleg | £1,000 |
| Rhwydwaith Arloeswyr Cymru | £440 |
| Partneriaeth Carbon Isel | £873 |
| MAS | £1,000 |
| @ Cymru | £583 |
| Cefnogaeth Technium Arall | £1,247 |
| Gwasanaethau a Nwyddau Amgylcheddol | £1,198 |
| Eraill, e.e.Know How Cymru, Cyfathrebiadau & Chyhoeddiadau | £4,670 |

## Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 1,708 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 3,022 |
| Cydweithrediadau rhwng diwydiant ac academia | 536 |
| Cynnyrch a phrosesau newydd a gyflwynwyd | 1,625 |

### iii) Cyllid Cymru

Gwella argaeledd a hygyrchedd ariannu a chefnogaeth reolaethol gysylltiol ar gyfer cwmnïau bychan a chanolig yng Nghymru, a buddsoddi yn y busnesau yng Nghymru sy'n arddangos potensial clir ar gyfer tyfiant ac a fydd yn dod ag elw masnachol hirdymor er mwyn buddsoddi yn y dyfodol.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Cyllid Cymru 2004-5* *£6,822*

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 1,590 |
| Y Busnesau gafodd Gymorth | 456 |
| Buddsoddiad y Sector Preifat | 16,540 |

### iv) Amaeth Bwyd

Mae cefnogi Cymru Wledig yn cael ei bwysleisio fel blaenoriaeth yn y Llythyr Cylch Gwaith. Un agwedd o'n cefnogaeth yw trwy ddatblygu ymhellach Strategaeth 'Amaeth Bwyd' Cymru, cefnogi ffermio sy'n amgylcheddol gynaliadwy, cefnogi gweithredu 'Ffermio yn y Dyfodol', datblygu'r sector bysgod a darparu Gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Cafodd Cyswllt Ffermio ei lansio gan Lywodraeth y Cynulliad fis Medi 2001 fel gwasanaeth cyd-drefnedig ledled Cymru i deuluoedd yn ffermio, i'w helpu i fabwysiadu arferion busnes newydd a rhai mwy cynaliadwy.

Sail y cysyniad a oedd yn sail i ddatblygiad Cyswllt Ffermio oedd datblygu gwasanaeth wedi ei integreiddio a fydd yn cynnig cyfle i ffermwyr gael cyngor busnes ac arbenigol, hyfforddiant, trosglwyddo technoleg ac ymgeisio am grantiau cyfalaf. Mae prif feysydd ymrwymiad yr Awdurdod yn cynnwys rheoli rhwydwaith o hyrwyddwyr lleol, rhad ac am ddim, sy'n cynnig cyngor cynllunio busnes, cynnal pedair Canolfan Datblygu yn ogystal â Chylchoedd Peiriannau er mwyn hybu dealltwriaeth a rheoli costau cyfalaf sefydlog.

## Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Agri Food 2004-5* *£22,693*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Grantiau Prosesu a Marchnata | £8,357 |
| Datblygu Masnach | £3,100 |
| Cyswllt Ffermio | £6,944 |
| Gweithredu Marchnata a Brand | £1,900 |
| Strategaeth Agri Food | £1,816 |
| Arall | £576 |

## Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 430 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 3,380 |
| Y Busnesau gafodd Gymorth | 4,406 |

## v) Cymdeithas Wybodaeth a Thechnoleg y Cyfryngau

Mae'r llythyr Cylch Gwaith yn pwysleisio hybu TGCh fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â pharhau i gefnogi Llywodraeth y Cynulliad wrth ddarparu'r gweithrediadau a restrir yn Cymru ar Lein, a chrynhoi galw'r sector cyhoeddus am fand llydan.

Eleni fe fyddwn yn parhau i hybu Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwneud cyfathrebu band uchel yn fwy forddiadwy trwy ein gweithgareddau ar y rhaglen 'Profi cyn Prynu', Cefnogaeth Ban Llydan a rhaglenni eraill. Fe fyddwn yn gweithio gyda cwmnïau i'w helpu i wneud y gorau o TGCh er mwyn cynyddu eu mantais cystadleuol trwy ein hamrywiaeth o raglenni E-fusnes sy'n delio ag anghenion cwmnïau ar bob cam ar yr ysgol e-fabwysiadu. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys Trelar WIS, y Rhwydwaith neu Ganolfannau Gefnogi TGCh a Busnesau SME Cymru. Fe fyddwn hefyd yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill sy'n bartneriaid i ddarparu eu elfennau hwy o'r ysgol, e.e. Cyfle Cymru & WASP.

### Data Ariannol Allweddol (£000au)

**Cyfanswm y gwariant ar Y Gymdeithas Wybodaeth a Thechnoleg Cyfryngau 2004-5** ***£7,554***

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Corus: 5 Sir | £2,824 |
| Rhaglen smE | £892 |
| Cynlluniau Gweithredu WIS | £600 |
| Ymwybyddiaeth o TGCh | £706 |
| Sgrîn | £400 |
| Comisiwn Sgrîn Cymru | £577 |
| Arall | £1,555 |

### Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 233 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 553 |
| Adolygiadau Technegol | 4,142 |

### vi) Adeiladau Wedi'i Teilwra'n Arbennig

Datblygu adeiladau addas ar gyfer busnesau bychan a chanolig ac adnoddau ar gyfer cwmnïau'n deillio a'r byd academig, adeiladau wedi'i teilwra'n arbennig ar gyfer buddsoddwyr newydd mewnol ac ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes.

Daw'r rhan fwyaf o gefnogaeth i gwmnïau trwy Grantiau Datblygu Eiddo ac, felly, ni cheir dadansoddiad manwl o weithgareddau ar sail cyfrinachedd masnachol.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Adeiladau Wrth Fesur 2004-5 £20,017*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Canolbarth Cymru | £6,070 |
| Gogledd Cymru | £6,768 |
| De Ddwyrain Cymru | £3,266 |
| De Orllewin Cymru | £3,913 |

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 717 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 1,664 |
| Buddsoddiad Cyfalaf | 63,609 |

## c) Seilwaith Busnes

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn rhoi blaenoriaeth i safleoedd ac adeiladau drwy barhau â'n gwaith wrth ddatblygu Strategaeth Eiddo, ac wrth wneud hynny wneud y gorau o rôl y sector preifat a sicrhau cydbwysedd teg o fuddsoddiad rhwng Dwyrain a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a chaniatáu bod mwy o botensial ar gyfer y sector preifat yn Nwyrain Cymru.

Eleni fe fyddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector preifat i sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd ac adeiladau o safon a seilwaith yn y lleoedd cywir, yn cefnogi sectorau a chlystyrau twf newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes, ac yn cefnogi seilwaith trafnidiaeth.

Data Ariannol Allweddol (£000au)
*Cyfanswm y gwariant ar Seilwaith Busnes 2004-5* *£35,933*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Canolbarth Cymru: Datblygu Safleoedd ac Adeiladau Ymlaen Llaw, e.e. Parc Teifi, Aberteifi; Parc Technoleg Aberporth; safle KTH yn ailddatblygiad Llanidloes | £11,608 |
| Gogledd Cymru: Datblygu Safleoedd ac adeiladau parod: e.e. Bryn Cegin, Parc Penarlâg | £3,143 |
| De Ddwyrain: Datblygu Safleoedd ac Adeiladau Ymlaen Llaw tebyg i eiddo a gweithgaredd trefol yn y Coridor Adnewyddu Gorllewin Merthyr | £7,105 |
| De Orllewin: Datblygu Safleoedd ac adeiladau parod e.e. Delicarta, Gorllewin Cross Hands | £6,737 |
| Rhodfa Bute | £6,090 |
| Arall | £1,250 |

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Yr Arwynebedd llawr a grëwyd | 99,150$m^2$ |

Dylid nodi y bwriedir cyflenwi nifer o'r gweithgareddau allweddol hyn trwy ein mentrau eiddo newydd sy'n galw am fuddsoddiad sylweddol gan y sector preifat ac arian oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd. Mae lefel o risg yn gysylltiedig â'r mentrau hyn, megis cymeradwyaeth rheolaethol ac eraill, a fydd efallai yn golygu symud gam wrth gam.

## B. Cymunedau Bywiog

### Cefnogaeth i Gymunedau

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, a phwysigrwydd parhau a chryfhau perthnasau gyda budd-ddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn pwysleisio mai'r Strategaethau Cymunedol ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Lleol, y Strategaethau Economaidd Rhanbarthol a Chynllun Gofodol Cymru fydd y cyfryngau allweddol ar gyfer trawsnewid y weledigaeth hon yn weithrediadau penodol a fydd yn adlewyrchu amgylchiadau gwahanol amrywiol rannau o Gymru, rhai trefol a gwledig. Bydd yr Awdurdod yn parhau i greu cymunedau cryfion ac yn cefnogi Cymru wledig, er enghraifft:

- Trwy gefnogi adnewyddu cymunedau
- Trwy gydnabod pwysigrwydd y rhan mae trefi a phentrefi gwledig yn ei chwarae mewn adfywiad gwledig
- Trwy wireddu cynlluniau adnewyddu is-ranbarthol
- Trwy wneud gwelliannau amgylcheddol i stadau diwydiannol a choridorau strategol
- Trwy adfer safleoedd adfeiliedig a halogedig

### Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Gefnogaeth i Gymunedau 2004-5* *£ 51,460*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Gwelliannau Amgylcheddol | £4,445 |
| Adennill Phurnacite | £5,000 |
| Adennill tir, er enghraifft Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerffili, Brymbo | £10,990 |
| Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd | £4,600 |
| Glan y Dwr SA1, Abertawe | £6,717 |
| Adfywiad Abergwaun / Gogledd Sir Benfro | £1,140 |
| Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | £1,250 |
| Blaenau Gwent – Adfywiad Trefol | £2,610 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru, Ardal Buddsoddiad Allweddol – Adfywiad Trefol | £1,760 |
| Torfaen – Adfywiad Trefol | £2,800 |
| Arall | £10,148 |

### Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Rhaglenni cymunedol noddedig | 510 |
| Arwynebedd llawr wedi ei wella : metrau sgwâr | 18,510 |
| Tir wedi ei adennill: Hectarau | 267 |

Yn ogystal â hyn bydd yr Awdurdod yn rheoli nifer o raglenni gwledig, yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang o bartneriaid strategol. Cyfeirir at y rhain yn gynharach yn y ddogfen hon ac maen nhw'n cynnwys:

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Leader+ | £1,500 |
| Erthygl 33 | £1,793 |
| Gweithredu Cymunedol Gwledig | £1,800 |
| Siopau Gwledig | £150 |

Er hynny, fel y nodwyd eisoes, rydym yn ceisio sicrhau fod yr holl raglenni prif ffrwd, h.y. cefnogaeth busnes, adfywiad cymunedol, a datblygu tir ac eiddo sy'n berthnasol i, ac yn cael eu darparu yn, y Gymru Wledig.

## C. Cyfleon i Bobl

### Cefnogaeth i Unigolion / Cyfranogaeth

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn rhoi blaenoriaeth i annog entrepreneuriaeth trwy gwrdd â cherrig milltir yn y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth. Eleni byddwn yn dal i weithio er mwyn hybu cerrig milltir allweddol, gan gynnwys gweithgareddau i brif-ffrydio cefnogaeth a ddatblygwyd hyd yma o dan y prosiect Potentia a hybu ymhellach ddiwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Gefnogaeth i Unigolion 2004-5 £11,874*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Potentia | £3,668 |
| Cydraddoldeb SME | £1,486 |
| Y Ffatri Fenter | £1,025 |
| Y Diwylliant Entrepreneuraidd | £3,498 |
| Marchnadoedd Llafur Canolig | £800 |
| Partneriaethau Cyfartal | £714 |
| Eraill | £683 |

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 1,020 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 120 |
| Unigolion a dderbyniodd Gymorth | 2,094 |

## D. Rhaglenni Corfforaethol

### a) Rhyngwladol

Datblygodd tîm Rhyngwladol yr Awdurdod strategaeth ar gyfer sectorau a gweithgareddau targed mewn marchnadoedd allweddol. Mae hyn yn rhan annatod o symudiad yr Awdurdod i gynnig marchnata i sectorau a busnesau targed. Mae'r ymdriniaeth a gynigir wedi ei amlinellu yn Adran 3 y ddogfen hon.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar y Rhyngwladol 2004-5* *£6,485*

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Marchnadoedd FDI | £5,535 |
| Rheolaeth Prosiect a Chefnogaeth i Fuddsoddwyr | £615 |
| Gwybodaeth am Ymchwil a'r Farchnad | £335 |

Data Cynnyrch Allweddol

| | |
|---|---|
| Swyddi a Grëwyd | 7,100 |
| Swyddi a Ddiogelwyd | 2,750 |

## b) Marchnata

Mae gweithgaredd y tîm Marchnata yn cefnogi nifer o flaenoriaethau. Mewn perthynas ag Annog Arloesedd – bydd tîm Marchnata'r Sector yn datblygu strategaethau a chynigion marchnata allweddol ar gyfer gwyddoniaeth bywyd, cyfryngau Rhyngweithiol a'r sector TG. Bydd yna ddatblygiad wedi ei gyd-drefnu farchnata'r rhwydwaith Technium, yn cynnwys pwyslais ar gyflwyno'r cynnig newydd am y brand Technium a datblygu strategaeth marchnata thematig deor busnesau ar gyfer Cymru.

Mewn perthynas â Chefnogi Busnesau – bydd y tîm Marchnata yn parhau i weithio'n agos gyda'r swyddogaeth Cefnogi Busnes. Yn ystod y flwyddyn fe fyddwn yn gweithredu'r strategaeth Segmentiad Marchnata ar draws Cymru, mewn cydweithrediad agos ag ELWa a phartneriaid eraill Tîm Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall a chanolbwyntio adnoddau'n fwy effeithiol ar segmentau allweddol a fydd yn gyrru economi Cymru. Fe fyddwn yn parhau i gyhoeddi a gwella'r Cylchgrawn Busnes, gan sicrhau'r cylchrediad ehangaf posibl i fusnesau ar draws Cymru.

O ran Cymru yn y Byd – bydd dod a'r cyfleon a gynigir gan Gwpan Ryder 2010 i'r brif ffrwd yn flaenoriaeth marchnata allweddol, yn enwedig mewn meysydd fel chyfleon hybu Bwyd, Technoleg Gwybodaeth a datblygu tir, gan fanteisio ar y cyfle i godi proffil Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan Ryder eleni yn Detroit a gwneud y mwyaf o gyfleon yn y Sector Moduro.

Mae Rali Cymru Prydain Fawr unwaith eto'n rhoi cyfle i ddatblygu strategaeth Moduro ym meysydd datblygu Sgiliau, Addysg, Twristiaeth a Datblygu Busnes. Caiff tîm rheoli prosiect ei sefydlu i yrru a gwneud y mwyaf o hyn.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

***Cyfanswm y Gwariant ar Farchnata 2004-5*** ***£10,000***

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5<br>Gwariant £,000 |
|---|---|
| Cyfathrebu | £1,400 |
| Sectorau (gan gynnwys Technium) | £1,150 |
| Marchnata Rhanbarthol | £1,000 |
| Nawdd a Digwyddiadau | £500 |
| Gwefan | £500 |
| Cysylltiadau Cyhoeddus | £600 |
| Rali Cymru Prydain Fawr | £1,350 |
| Cwpan Ryder | £3,500 |

## Data Cynnyrch Allweddol i'w fonitro yn 2004/05

| |
|---|
| Gweithredu arfer segmentiad cwsmeriaid |
| Cysylltiadau wedi eu creu gan y Cylchgrawn Busnes |
| Argraffion tudalennau Unigryw: Gwefan |
| Targedu cynhyrchion o strategaeth Rali Cymru Prydain Fawr |
| Cysylltiadau a gynhyrchwyd gan y digwyddiad ym Mharc Aberporth |
| Datblygu digwyddiad 'arwyddnod' newydd yng Nghymru |
| Monitro negeseuon Cysylltiadau Cyhoeddus cadarnhaol |

## c) Datblygu Tir a Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae Datblygu Tir a Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyfrannu tuag at rychwant o gyfleon gan weithio'n agos gyda Rhanbarthau'r Awdurdod. Yn ardaloedd llewyrchus Cymru, y polisi yw ymyrryd dim ond mewn gweithgareddau adfywio sy'n gofyn am arbenigedd mewn prynu gorfodol, 'glanhau' teitlau a chydosod tir. Mae Datblygu Tir yn weithgar mewn ardaloedd eilaidd trwy drosglwyddo risg wrth ddatblygu mewn partneriaeth â'r sectorau cyhoeddus a phreifat., Y dasg yn ardaloedd mwyaf economaidd ymylol yng Nghymru yw cefnogi cynlluniau adfywio sydd angen cefnogaeth grant sylweddol a symud cynlluniau tai preifat a chymdeithasol sylweddol a seilwaith cymdeithasol ymlaen.

Yn 2004-5 bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol, cynhwysfawr mewnol, sydd yn ateb o leiaf 80% o holl anghenion yr Awdurdod. Y bwriad fydd darparu gwasanaeth o ansawdd, a fydd yn rhatach nag yn y blynyddoedd blaenorol, a fydd yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ateb anghenion yr Awdurdod. Bydd cost y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan gleientiaid mewnol.

Data Ariannol Allweddol (£000au)

| | |
|---|---|
| *Cyfanswm y gwariant / incwm ar Ddatblygu Tir a Gwasanaethau Cyfreithiol 2004-5* | *£30,000* |

| Gweithgareddau Allweddol | Yr Incwm a Ragwelir yn 2004-5 £000au | Y Gwariant a Ragwelir yn 2004-5 £000au |
|---|---|---|
| Cefnogaeth i Fusnesau | £7,000 | £15,000 |
| Cefnogaeth i Unigolion | £18,000 | £11,000 |
| Cefnogaeth i Gymunedau | £5,000 | £4,000 |

Dylid nodi nad yw manylion y Gweithgareddau Allweddol yn cael eu dangos rhag peryglu trafodaethau masnachol a chyfrinachedd, ond er hynny, mae'r incwm a ragwelir uchod yn cynnwys gwerthu safleoedd yn Pentrecaseg, Margam, Aberafan, Nantgarw, Trefforest, Casnewydd a Glasdir Rhuthun.

Mae'r gwariant a ragwelir uchod yn cynnwys caffael safleoedd yn Aberystwyth, Casnewydd, Penarlâg, Wrecsam ac Abertawe.

## d. Datblygu Strategaeth

Mae’r Llythyr Cylch Gwaith yn nodi y dylai’r Awdurdod barhau â’i waith gyda’r Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd ac uned ymchwil economaidd a gwerthuso Llywodraeth y Cynulliad wrth ddatblygu a gweithredu rhaglen ymchwil a gwerthuso ymarferol er mwyn gwella’n dealltwriaeth o faterion economaidd Cymreig; monitro effeithlonrwydd y rhaglenni sy’n bodoli eisoes; a hysbysu datblygiad polisïau a mentrau’r dyfodol.

Yn ychwanegol at hyn, dylai’r Awdurdod gynnig arweiniad, gan gysylltu â’r uned ymchwil economaidd a gwerthuso Llywodraeth y Cynulliad, wrth ddatblygu rhaglen werthuso ychwanegol a chadarn ar gyfer ein gweithgareddau a’n rhaglenni ein hunain a chanolbwyntio mwy ar asesu effaith ar berfformiad economaidd mewn termau net yn hytrach na gros.

Mae Bwrdd yr Awdurdod yn chwarae rôl allweddol wrth arwain ein strategaeth a’n polisïau allweddol, gan fanteisio ar eu gwybodaeth eang a’u arbenigedd. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan waith Pwyllgorau’r Bwrdd, sy’n cael eu cefnogi gan Dimau Datblygu’r Awdurdod, yn seiliedig ar y meysydd polisi canlynol:-

- Economi Gwybodaeth
- Uwch ganolfannau gweithgynhyrchu
- Gwasanaethau Gwerth ychwanegol
- Cefnogaeth Busnes
- Adfywio
- Rheolaeth Perfformiad

Cafodd cynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol eu paratoi ar gyfer pob maes sy’n canolbwyntio ar faterion strategol, gan roi sylw i faterion croes dorol megis cystadleuaeth byd eang cynyddol, ehangiad a chydlyniad yr Undeb Ewropeaidd a thechnolegau’r dyfodol.

Mae canlyniadau hyd yma’n cynnwys papur materion a fydd yn sail i ddatblygiad Strategaeth Adfywio’r Awdurdod ac adolygiad o fesurau perfformiad allweddol.

Datblygwyd mesur newydd o’r ‘Ychwanegu Gwerth’ ar gyfer rhai o’n gweithgareddau ac fe’i defnyddiwyd wrth flaenoriaethu’r gweithgareddau yn y Cynllun Busnes hwn. Bydd y cysyniad ‘Ychwanegu Gwerth’ hwn yn cael ei gywreinio dros gyfnod y Cynllun trwy faincnodi arfer gorau gydag asiantaethau datblygu rhanbarthol eraill. Yn ogystal â hyn mae gwaith yn mynd rhagddo’n dda ar ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer adfywiad cymunedol a chasglu data llinell sylfaen a thechnegau monitro, wedi eu seilio ar Gynllun Gweithredu Adfywio De Ceredigion. Ceir mwy o fanylion am y materion mesur hyn yn Adran 5 o’r Cynllun hwn.

Bydd y rhaglen ymchwil gymhwysol yn tynnu ar, lle bo hynny'n addas, ar astudiaethau a gomisiynwyd drwy'r Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau gwell gwybodaeth am ein cwsmeriaid busnes drwy'r gwaith segmentio a Sectorau Allweddol a amlinellwyd yn gynharach, ynghŷd â gwaith pellach mewn arfer gorau wrth sefydlu busnesau newydd ac entrepreneuriaeth. Ymchwilir yn benodol i ddyfeisio Strategaethau Marchnad mewn marchnadoedd tramor wedi eu targedu.

Mae meysydd eraill o weithgareddau'n cynnwys arolygu rhaglenni gaiff eu hariannu gan Ewrop ar draws yr Awdurdod, polisi Ewropeaidd a chefnogaeth ar gyfer Canolfan Ewropeaidd Cymru, Gwasanaethau Llyfrgell, a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd.

## Data Ariannol Allweddol (£000au)

*Cyfanswm y gwariant ar Ddatblygu Strategaeth 2004 -5 £2,280**

| Gweithgareddau Allweddol | 2004-5 Gwariant £,000 |
|---|---|
| Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth | £267 |
| Strategaethau a Ffora Sectorau | £174 |
| Datblygiad Polisi Cymwysedig (yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer Canolfan Ewropeaidd Cymru) | £112 |
| Rheoli Perfformiad a datblygu systemau | £110 |
| Ymchwil Cymwysedig | £126 |
| Partneriaethau Cronfeydd Strwythurol | £1,225 |
| Arall | £266 |


*Nodyn: Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y lein BEL Partneriaethau Strwythurol ond yn eithrio Rhaglenni Gwledig a ymddengys o dan B) Cymunedau Bywiog yn gynharach yn y ddogfen hon.

## Mae'r Data Cynnyrch Allweddol yn cynnwys

| |
|---|
| Arwain a cyflenwi ar pedair strategaeth allweddol sectorau strategol |
| Cyflwyno darpariaeth o Fframwaith Perfformiad a Gwerthuso tri gwerthusiad allweddol o raglenni adfywio busnesau a chymunedau |

## Adnoddau Dynol

Mae talentau, sgiliau, galluoedd a brwdfrydedd ein pobl yn ffactorau allweddol yn ein gallu i gystadlu mewn marchnad fyd eang sy'n gynyddol gystadleuol ac i ddarparu'r gefnogaeth iawn ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae sicrhau fod gennym bobl o'r fath a'n bod yn dal i ddatblygu diwylliant o 'Lunio Llwyddiant Gyda'n Gilydd' yn rhan hanfodol o'n proses Cynllunio.




Yn y cyd destun hwn, gwaith adnoddau dynol yw cael y perfformiad a'r lles gorau i'r gyfundrefn a'r bobl sy'n gweithio ynddi. Mae model cwsmer adnoddau dynol yn y Ffigwr yn dangos y prif feysydd sy'n deillio o hyn.

### Lles

Rydym wedi talu cryn sylw i faterion iawndal a buddion, dyluniad swyddi a gwerthuso a byddwn yn dal i'w cydgrynhoi, yn dal i weithio gyda grŵp cyflog cyfartal penodol i dalu sylw i faterion sy'n dal heb eu setlo ar gyfer unigolion neu grŵp.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu 'Strategaeth ymarfer gorau Iechyd a Diogelwch' a ddechreuodd drwy benodi aelod o staff yn arbennig ar gyfer hyn yn ystod haf 2003.

Byddwn yn dal i sicrhau fod ein polisïau'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, mentrau'r llywodraeth, polisïau ac ymarfer gorau. Byddwn yn gweithio i wella ar ymgynghori gyda'n staff ac ynghylch, er enghraifft, ein polisïau cyfleon cyfartal.

Cafwyd canlyniadau calonogol iawn yn ein harolwg staff diweddar ynghylch cydbwysedd gwaith a bywyd. Byddwn yn dal i dalu sylw i'r nifer o'r awgrymiadau a gafwyd ar gyfer gwella cyfathrebu mewnol. Un o'r camau rydym wedi eu cymryd eleni yw penodi Rheolwr cyfathrebu Mewnol, sydd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Cyfathrebu Mewnol.

Byddwn yn cynnal arolwg staff yn flynyddol ac yn ei ddefnyddio fel teclyn ar gyfer ymgynghori ac ymateb i'n staff. Byddwn yn dal i weithio tuag at gael y berthynas orau gyda'n staff ac rydym yn gwerthfawrogi'n arw y cymorth a gawn gan ein partneriaid yn yr undebau i gyrraedd hyn.

**Perfformiad**

Mae perfformiad staff yn faes adnoddau dynol allweddol a byddwn yn adeiladu ar ein gwaith hyd yn hyn drwy:

- Hyfforddi a Datblygu ein pobl
- Rhaglenni Hyfforddi Achredig
- Darpariaethau Dysgu Agored / e – Ddysgu
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Yr un pryd, byddwn yn canolbwyntio ar y mentrau newydd canlynol:

- Cael statws Buddsoddwyr mewn Pobl ar gyfer yr Awdurdod i gyd .

- Cynllunio a gweithredu proses werthuso newydd a fydd yn canolbwyntio mwy ar sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd e e ymddygiad a gwaith tîm.

- Gweithio ar alluoedd fel cyswllt wrth recriwtio, cyflwyno, gwerthuso, hyfforddi a datblygu gyrfa mewn ffordd gydlynol a ellir ei mesur.

- Hybu cyfleon cyfartal. Byddwn yn ceisio deall yn iawn y rhaniad rhyw ar wahanol lefelau yn y gyfundrefn a gweithio gydag arbenigwyr er mwyn ein helpu i dalu sylw i'r gwahaniaethau.

- Drwy weithio gyda'r tîm mewnol Buddsoddwyr Mewn Pobl byddwn yn talu sylw i'r atborth datblygu gyrfa a gaed o'r arolwg staff ac yn datblygu mentrau i helpu pobl i ddatblygu eu gyrfa mewn awyrgylch gyfundrefnol well sy'n hybu datblygiad o'r fath.

Gweithir yn galed ym maes perfformiad cyfundrefnol hefyd. Mae newid yn rhan hanofodol o fywyd mewn cyfundrefnau deinamig a byddwn yn darparu hyfforddiant ar gyfer ein pobl er mwyn iddynt ddeall a gallu trin newid pan fydd angen. Cyflwynir systemau newydd i gael gwell rheolaeth ar brosesau busnes allweddol yr Awdurdod megis perthynas â'r cwsmer, perfformiad a

gwybodaeth ariannol.  Mae'n hanfodol felly fod ein pobl yn deall pam fod angen systemau o'r fath, bod yn rhan o'u gweithredu a'u bod wedi'u hyfforddi'n drwyadl ar sut i'w defnyddio.

Mae'r Awdurdod yn brif gyflogwr mawr ei hun.  Rydym felly'n ceisio mabwysiadu'r ymarferion  gorau, er enghraifft drwy geisio achrediadau Buddsoddwyr mewn Pobl a'r wobr statws lefel 3 ar gyfer ein staff yng nghanolbarth Cymru o dan y Cynllun Draig Werdd.

# Mesur ein Llwyddiant

5

## Cyflwyniad

5.1 Mesurir perfformiad yr Awdurdod yn erbyn rhagolygon Allbwn Strategol a Gweithredol, yn seiliedig ar ein cyllideb grynswth ar gyfer 2004-05. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyfres o ddangosyddion lefel uchaf megis swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, buddsoddiad y sector preifat a sefydlu busnesau newydd. Ceir hefyd nifer o fesurau gweithredol allweddol sy'n perthyn i allbynnau ffisegol ac ariannol yn y tymor byr, e.e. sicrhau busnes newydd ar gyfer cwmnïau Cymru, darparu arwynebedd llawr masnachol a diwydiannol, hectarau o dir a adenillwyd.

5.2 Rydym wedi anelu at ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd a fydd yn ein caniatáu i:

- Fesur yn well y canlyniadau uniongyrchol sy'n deillio o gefnogaeth yr Awdurdod ar gyfer cwsmeriaid: h.y. busnesau, cymunedau ac unigolion.
- Mesur yn well dylanwad y canlyniadau hyn ar economi Cymru

5.3 Mae hyn yn ymarferiad cymhleth a manylir ar y datblygiadau hyd yma isod. Bydd y cynigion yn cael eu trafod gyda'r Gweinidog pan fydd yn cwrdd â Bwrdd yr Awdurdod ym mis Medi i drafod ein perfformiad hanner blwyddyn, ac yan'n gynnar yn 2005 wrth ystyried ein Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2005-06.

## Y Fframwaith Rheoli Perfformiad

5.4 Mae gweithgareddau'r awdurdod yn disgyn i ddau gategori eang:

Cefnogaeth uniongyrchol: gweithgareddau sy'n cefnogi ysbryd cystadleuol cynyddol busnes. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl raglenni cefnogi busnes prif ffrwd, cefnogaeth sector cyffredinol ac arbenigol, holl weithgaredd FDI a darpariaeth eiddo. Rydym wedi datblygu cysyniad 'Ychwanegu Gwerth' er mwyn mesur y dylanwad mae'r gweithgareddau hyn yn eu cael ar fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth yng ngwahanol rannau o Gymru, a hefyd y gymuned gyfan.

- Cefnogaeth meithrin gallu: mae dylanwad gweithgareddau o'r fath yn anoddach i'w mesur a gellir ond gwneud hynny dros gyfnod llawer hwy, gan bod hyn yn cynnwys newid agwedd tuag at entrepreneuriaeth, adfywio cymunedol a chynorthwyo unigolion i ddod yn weithgar yn economaidd.

Mesur Ychwanegu Gwerth

5.5 Yn syml, ychwanegu gwerth mewn busnes yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm incwm y busnes a chyfanswm costau ag eithrio cyflog, sef tua swm eu helw a chyflogau yn y rhan fwyaf o fusnesau. Mae'n dilyn fod swm y gwerth ychwanegol ar draws yr holl fusnesau yn fras yn cyfateb i gyfanswm GDP y diwydiant. Drwy asesu'r nifer o swyddi sy'n debygol o gael eu creu drwy unrhyw weithgaredd cefnogi busnes, a nodi diwydiannau y bydd y swyddi yn cael eu creu ynddynt, mae'n bosibl amcangyfrif faint o werth ychwanegol dros ben sy'n deillio o ganlyniad i'r gweithgaredd hwnnw. Hefyd, drwy rannu'r ffigwr gwerth ychwanegol dros ben gyda swm cefnogaeth ariannol yr Awdurdod ar gyfer y gweithgaredd, mae'n bosibl cyrraedd ffigwr "Gwerth Ychwanegol am bob £ a wariwyd gan yr Awdurdod", sy'n cael ei weld fel mesur ar gyfer asesu Gwerth am Arian gwahanol weithgareddau.

5.6 Rydym wedi profi'r syniad Ychwanegu Gwerth hwn fel cymorth i flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau fel rhan o'r rownd yma o Gynllunio Busnes hyn. Hefyd, gan gydnabod pa mor anodd yw creu swyddi mewn rhai rhannau o Gymru a bod y farchnad yn gallu bod yn amherffaith yn aml, rydym wedi gosod targedau lleol ar gyfer mesur Ychwanegu Gwerth.

5.7 Bydd yr ymdriniaeth 'Ychwanegu Gwerth' ynghyd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol mwy priodol yn ein cynorthwyo i asesu dylanwad ein gweithgareddau. Serch hynny, er mwyn deall ein dylanwad ychwanegu gwerth ar fusnesau yn well, mae angen i ni hefyd fonitro ein cwsmeriaid yn nhermau dangosyddion busnes allweddol megis trosiant, lefelau cyflogaeth a chyflogau. Bydd angen Rheolaeth Perthynas Cwsmer a System Gwybodaeth priodol ar gyfer hyn.

**Mesur Meithrin Gallu**

5.8 Cynlluniwyd nifer o weithgareddau er mwyn datgloi potensial cymunedau ac unigolion fel sylfaen i'w cyfraniad hirdymor at ffyniant a datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth sydd ar gael o dan Teclynnau Adfywio Cymunedol, sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol, yn creu cyfleoedd gwaith ar gyfer grwpiau dan anfantais ac yn cefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, megis hyrwyddo buddiannau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

5.9 Mae'n bwysig fod rôl yr Awdurdod mewn adfywio cymunedol a'r themâu croestorrol hefyd yn fesuradwy. At y diben hwn, rydym yn mabwysiadu yr ymarfer gorau a ddatblygwyd yng ngwerthusiad canol tymor diweddaraf y Gyllideb Adfywio Sengl yn Lloegr. Mae hyn yn nodi cyfres o ugain neu fwy o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n cynnwys yr allbynnau meintiol traddodiadol yn y tymor byr a'r canlyniadau mwy ansoddol yn y tymor hir.

5.10 Datblygir fframwaith gwerthuso a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cynllun Gweithredu Adfywio De Ceredigion, gyda chynigion tebyg ar gyfer y Rhyl, Caergybi, Gogledd Sir Benfro ac adfywio Glyn Ebwy ar ôl cau Corus. Bydd hyn yn cynnwys ein partneriaid a defnyddir arolygon a holiaduron maincnodi er mwyn olrhain newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad yn y tymor hir.

**System Wybodaeth Rheoli Perfformiad**

5.11 Rhan allweddol o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yw datblygu System Wybodaeth Rheoli Perfformiad. Mae System Wybodaeth Rheoli Perfformiad yn gronfa ddata sengl ar gyfer yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Chynllun Busnes, yn cyfuno gweithgareddau gyda'u hallbynnau, cyllid a gwariant. Bydd hyn yn gwella ansawdd, prydlondeb a monitro mesurau perfformiad a dadansoddiadau rheolaeth gwybodaeth. Rhagwelir y bydd Cyfnod 2 yn cynnwys gwerthuso a chymeradwyo prosiect, gyda chysylltiadau gyda systemau ariannol a rheoli cwsmer ac CRM a e:Fin newydd.

5.12 Comisiynwyd ymgynghorwyr annibynnol i ddilysu allbynnau'n rheolaidd a sgoriwyd o sampl 10% o weithgareddau'r Awdurdod a oedd yn cadarnhau y cyflawnwyd yr allbynnau mewn gwirionedd.

**Rheoli Risg**

5.13 Er mwyn atgyfnerthu ein gwaith ar asesu ychwanegu gwerth drwy ein gweithgareddau cefnogi busnesau, rydym yn gobeithio cyflwyno methodoleg gwerthuso mwy cadarn a chyson, a fydd yn cynnwys asesu risg. Y nod yw asesu a monitor perfformiad a risg dros rychwant oes y prosiect/gweithgaredd. Ymgymerir â gwerthusiad gwreiddiol yn y cyfnod dechreuol, a bydd ymarfer manylach yn cael ei wneud pan fydd angen addewid am gyllid. Yn ogystal ag allbwn, manylion cost a nawdd, asesir a dosbarthir risgiau, a nodir y cerrig milltir allweddol yn ystod rhychwant oes y prosiect. Ailymwelir yn ystod cyfnod Cymeradwyaeth y Prosiect â'r holl weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes a thanlinellir ac ystyrir unrhyw wahaniaethau sylweddol a ddaw i'r fei. Bydd y gwerthusiad yn cyd-fynd ag unrhyw gyflwyniadau a fydd yn cael eu cymeradwyo y tu allan i unedau dirprwyedig lleol, e.e. y Tîm Rheoli Gweithredol, Y Bwrdd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5.14 Mae ymgorffori asesiad risg i mewn i broses o gymeradwyo prosiect yr Awdurdod yn cynrychioli un rhan o Strategaeth Rheolaeth Risg ehangach yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi datblygu Cofrestr Risg ac mae ganddo broses rheolaeth risg mewn grym i gynnwys risgiau strategol a'r risgiau mae'n wynebu o ddydd i ddydd. Ar y lefel strategol, caiff risgiau eu dosbarthu gan system "oleuadau traffig" ac maent yn cael eu clustnodi yn ardaloedd cyfrifoldeb penodol, a darperir adroddiadau cynnydd ar statws datrysiadau rheolyddol yn y cyfnodau priodol ar gyfer y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd.

5.15 Mae gan yr Awdurdod Bwyllgor Rheolaeth Risg sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o adeiniau gweithredol. Un o'i dasgau yw sicrhau y datblygir datrysiadau rheolyddol ar gyfer unrhyw risgiau newydd y mae aelodau o staff yn tynnu sylw atynt.

## Mesurau Perfformiad

5.16 Dechreuwyd ar y gwaith o gyflinio diffiniadau ein mesurau craidd presennol gyda'r rhai a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol eraill a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cânt eu hymgorffori yn y Côd Ymarfer ar ôl iddynt gael eu cadarnhau, ac ymgymerir ag ymarfer ail-seilio erbyn canol y flwyddyn 2004-05. Penderynnir ar ddiffiniadau a meini prawf ar gyfer casglu data demograffig yn ystod y Flwyddyn Weithredol 2004-05.

## Gwerthuso

5.17 Mae fframwaith gwerthuso newydd yn cael ei ddatblygu sy'n ceisio ymgorffori ein gwaith ar feithrin gallu drwy fodelau Gynllun Gweithredu Adfywio De Ceredigion, Adran Masnach a Diwydiant a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Profir hyn drwy gyfres o werthusiadau peilot yn canolbwyntio ar ddatblygu cyflenwyr, rhaglenni arloesi ac adfywio cymunedol er mwyn hyrwyddo'r broses gynllunio 2005-06.

# 6

# Themâu Croestorrol

## Datblygiad Cynaliadwy

6.1 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu ei bolisi ar ddatblygiad cynaliadwy yn 'Dysgu Gweithio'n Wahanol', sy'n seiliedig ar ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru , 'Dysgu Byw'n Wahanol'. Drwy addasu polisi'r Llywodraeth ynghylch ymdrin ag offer integreiddio rydym yn datblygu cyfres o ganllawiau ar gyfer integreiddio datblygiad cynaliadwy yng ngweithgareddau'r Awdurdod, ac yn ein gwaith gyda Phartneriaid.

6.2 Yn dilyn ymgynhgoriaethau mewnol ac allanol helaeth datblygwyd ein polisi o dan y ddau bennawd cyffredinol canlynol, a byddant yn cael eu cyflenwi â rhaglen hyfforddi a gweithdai rheolaidd i lyfnhau gweithredu ac i adnabod a gwasgaru arfer da.

### Tyfu a Magu Busnesau Cynaliadwy

6.3 Datblygwyd a phrofwyd trefniadau ar gyfer integreiddio datblygiad cynaliadwy mewn i waith cefnogi a datblygu busnes yr Awdurdod. Y bwriad yw y bydd raid i ddarparwyr ar gontract gydymffurfio â'r rhain hefyd, pan fo'n briodol. Byddwn hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu a hwyluso cefnogaeth arbenigol o dan faner Cynllun Gweithredu Amgylchedd Fusnes y Cynulliad. Wrth gynorthwyo i 'Osod Cyfarwyddyd Newydd' byddwn yn datblygu'r economi werdd ymhellach, e.e. drwy gefnogi busnesau sy'n seiliedig ar ynni amgen a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol eraill. Hefyd, ar drywydd amcanion ynni ac effeithiolrwydd gwastraff, byddwn yn hyrwyddo cyngor i fusnesau ynghylch arbed ynni a lleihau gwastraff. Wrth wneud hynny, byddwn yn dangos y cysylltiad uniongyrchol rhwng swyddi o'r fath, creu cyfoeth a datblygiad cynaliadwy.

### Adfywio a Datblygiad Cynaliadwy

6.4 Cafodd canllawiau eu cymeradwyo erbyn hyn ar gyfer integreiddio datblygiad cynaliadwy i mewn i adfywio a datblygu ar gyfnod rhagarweiniol ar draws yr Awdurdod. Hefyd, mae Canllawiau ar gyfer Bioamrywiaeth yn eu lle ar gyfer gweithgareddau sy'n berthnasol i gaffael, datblygu ac adfer tir.

6.5 Mae ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygiadau gyda dyluniad da sy'n cael eu datblygu'n gynaliadwy wedi'i ymgorffori ar ffurf y gellir ei ddefnyddio gan ddatblygwyr, cymunedau a phartneriaid eraill er cael y dyluniad mwyaf addas. Profir "Gweithio'n Wahanol" mewn gweithdai a seminarau cyn ei gymeradwyo'n derfynol.

6.6 Rydym hefyd yn datblygu ffyrdd o integreiddio datblygiad cynaliadwy i strategaethau adrannol a buddsoddi, gwerthuso ac adrodd ar brosiect, a gwerthuso galluoedd, gwerthusiadau a datblygiad staff, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ymdrin yn hollol groestorrol a'i fod yn y prif ffrwd.

6.7 Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cael eglurhad ar ein cyfrifoldebau o dan Gyfarwyddeb Asesu Amgylchedd Strategol, yn enwedig wrth ddatblygu dulliau ar gyfer asesiad cynaliadwy a fyddai'n cwrdd ag anghenion y Gyfarwyddeb.

6.8 Wrth adolygu ein dulliau caffael, byddwn yn cadw mewn cof y trefniant diweddar rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd yr Uned Ewropeaidd ynghylch Gyrddu Caffaeliad Cyhoeddus, er mwyn i ni gael y canlyniadau gorau wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.

## Cynhwysedd Cymdeithasol

6.9 Mae'r Awdurdod wedi ymwymo gynorthwyo i godi graddau gweithgaredd economaidd drwy gyfuno ein gweithgareddau adfywio cymunedol a chefnogaeth busnes megis Potentia. Rydym hefyd yn anelu at gynyddu'r nifer sy'n derbyn ein gwasanaethau cefnogi busnes drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant arbenigol ar gyfer Llygad Busnes a phersonél GBAS. Y nod yw creu swyddi a chyfleoedd busnes, yn cynnwys yr economi cymdeithasol, a fydd yn hygyrch i bobl sy'n byw yn ardaloedd trefol a gwledig Cymru sy'n dioddef o amddifadedd. Felly mae cynhwysedd cymdeithasol yn un o'r themâu croestorrol rydym yn eu sefydlu yn ein gweithgareddau i gefnogi pob un o'r tri o'n grwpiau cwsmeriaid

6.10 Mae cynhwysedd cymdeithasol, fel y themâu croestorrol eraill, yn ganlyniad yr ymdrechir ei gael ac mae'n casglu at eu gilydd yr amryfal weithgareddau a amlygir yn y Cynllun, ynghyd â chyfraniadau ein partneriaid, wrth ddarparu atebion wedi'u teilwra sy'n ymateb anghenion a chyfleoedd gwahanol gymunedau ledled Cymru, a dyma'r amcan pwysicaf.

## Cyfleoedd Cyfartal

6.11 Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, yn ei bolisïau cyflogaeth mewnol ac yn y gwasanaethau mae'n eu darparu ledled Cymru. Rydym eisoes yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb i lawer o'n darparwyr prif ffrwd er mwyn eu cynorthwyo i gwrdd â'r sialens o ddatblygu amrywiaeth. Rydym yn cydnabod mai dim ond os yw holl rannau y gymuned yn gallu cymryd rhan lawn yn yr economi y gellir cyflawni'r nod o gynyddu a gwasgaru ffyniant. Yn 2001 sefydlwyd gweithgor cyfleon cyfartal sy'n cyfarfod bob dau fis ac yn gweithio i gynorthwyo'r Bwrdd, y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol i ddatblygu a gweithredu polisïau cyfleon cyfartal.

6.12 Datganwyd yn ein Cynllun Corfforaethol blaenorol ein bod yn datblygu a gweithredu ein hymrwymiad i'r Ddeddf Perthynas Hiliol (Newidad) 2000. Yn ystod blwyddyn ariannol 2002 / 2003 canolbwyntiodd y gweithgor cyfleon cyfartal ar ddatblygu Cynllun Cyfartaledd Hiliol a Chynllun Gweithredu sy'n hybu cyfartaledd hiliol yn nhermau darparu gwasanaeth a chyflogaeth.

6.13 Rydym yn bwriadu defnyddio'r Cynllun Gweithredu Cyfartaledd Hiliol ymhellach yn y dyfodol fel patrwm ar gyfer Cynllun Gweithredu Cyfartaledd estynedig a fydd yn cynnwys themâu cyfleon cyfartal eraill gan gynnwys rhyw, oedran, anabledd, iaith, tueddiadau rhywiol a chrefydd.

6.14 Bydd yr Awdurdod yn dal i fod y partner arweiniol mewn datblygu a gweithredu dwy o'r tair menter EQUAL yng Nghymru. Sefydlwyd y mentrau hyn gan y Gymuned Ewropeaidd er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad strategaeth genedlaethol a rhanbarthol. Mae'r Bartneriaeth Datblygu Cyflogaeth yn cynnal ymchwil ynghylch deall a chwalu beth sy'n rhwystro pobl o grwpiau sy'n cael ei heithrio yng Nghymru rhag cael eu cyflogi. Mae'r Bartneriaeth Datblygu Cyfenter yn anelu at addysgu a datblygu polisïau ac ymarferion y tu fewn i'r brif gefnogaeth fenter.

6.15 Rydym yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Iaith Pawb' i greu Cymru ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu. Rydym wrthi'n llunio strategaeth prif ffrwd ar gyfer yr Iaith Gymraeg, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn sicrhau fod hyn yn y brif ffrwd, beth fydd yn ei olygu a sut byddwn ni'n monitro ac adolygu ein perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau cofnodi neu bwyntiau rheoli ar gyfer gwahanol agweddau o'r strategaeth, asesiad ar brif ffrwd ym mhapurau polisi a chanllaw i'r staff ei ddilyn.

# 7

## Adnoddau ac Effeithiolrwydd

### Cyflwyniad

7.1 Mae'n egwyddor arweiniol o'r Cynllun y bydd yr Awdurdod yn trefnu'r lefel leiaf o adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i hyrwyddo'r gweithgareddau er mwyn cael y canlyniadau a ddymunir. Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod amodau'r farchnad yn amrywio ledled Cymru, o bositif (h.y. dim angen ymyrraeth) i wahanol raddfeydd o amherffeithrwydd yn y farchnad, hyd at fethiant llwyr y farchnad mewn mannau mwy ymylol.

7.2 Felly, yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, byddwn yn dal i nodi cyfleon pellach i'r sector preifat gyfrannu tuag at gyllido a darparu gweithgareddau.

### Strategaeth Eiddo

7.3 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan y farchnad ar gyfer darparu safleoedd ac mannau gweithio ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Darperir y rhaglen Cymru gyfan hon yn bennaf drwy fuddsoddiad preifat. Gellid crynhoi'r mentrau cyllid preifat priodol a'r peryglon cysylltiedig fel a ganlyn:

### Prydlesi Bond

7.4 Sail y dull hwn o gyllido prosiectau eiddo mawr yw blaenymwymiad gan yr Awdurdod i brydlesu'r eiddo o bartner sector preifat am hyd at 25 mlynedd. Er mwyn bodloni'r awdurdodau rheolaethol a chyfrifyddol, ymdrinnir â'r taliadau prydlesi gweithredol fel 'oddi ar y fantolen'. Yn tynnu ar y Strategaeth Eiddo rydym ar hyn o bryd yn nodi rhaglen o brosiectau addas, a fydd yn cynnwys Basn y Rhath ac SA1, Abertawe.

### Arian Strwythurol yn Cefnogi Cyllid Bwlch

7.5 Mae gan yr Awdurdod beirianwaith Grant Datblygu Eiddo sydd wedi'i sefydlu'n dda ac yn pontio'r bwlch rhwng cost a gwerth datblygiad o fewn cyfyngderau cymorth y wladwriaeth. Cynigiwn ymestyn cefnogaeth o'r fath drwy sefydlu cyllid Grant Datblygu Eiddo ar wahân ar gyfer ardaloedd Amcan 1 a 2 yn cael ei gyllido o'r Cronfeydd Strwythurol a fydd yn cyfateb i gyllid o'r sector preifat. Cynllunnir rhaglen o ddatblygiadau ar hyn o bryd a fydd yn ffurfio sail y cais i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

**Cronfa Datblygu Uniongyrchol**

7.6 Yn adeiladu ar ein profiad o Bartneriaeth Ddiwydiannol Cymru, bwriadwn sefydlu cronfa gyda phartner sector preifat er mwyn datblygu eiddo diwydiannol llai. Eto, ein bwriad yw tynnu ar Gronfeydd Strwythurol yr undeb Ewropeaidd, gan ddod yn fwy effeithiol wrth i'n partneriaid gaffael a rheoli'r datblygiadau.

**Ail Ariannu Technium**

7.7 Bwriadwn ymestyn y rhaglen Technium a darparu eiddo 'tyfu ymlaen' drwy werthu rhyddfraint y Techniums presennol a chanolfannau deori eraill ac ail fuddsoddi'r cyfalaf a ryddheir. Mae strwythur perchnogaeth priodol a threfniadau prydlesu'n ôl yn cael eu paratoi ac mae trafodaethau rhagarweiniol ar y gweill ynghylch adfachu ERDF.

## Adnoddau Ariannol, Targedau a Pherfformiad

**Cyllid y Cynulliad**

7.8 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Gyllideb derfynol sydd â darpariaeth o £208,791 mil ar gyfer cyllido'r Awdurdod am 2004 – 05. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu cyllid wedi'i glustnodi, hynny yw, cyllid wedi'i dyrannu ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol, cyfanswm o £43, 549 mil ar gyfer 2004 – 05.

**Incwm Arian Cyfatebol Ewropeaidd a'r Cynulliad**

7.9 Mae'r Awdurdod â rhan weithredol fel noddwr arweiniol nifer fawr o brosiectau Amcan 1 a 2. Rhagwelir incwm grant Ewropeaidd o £41,022,000. Bydd yr Awdurdod yn derbyn £10,000 mil o Arian Cyfatebol o Lwybrau at Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad.

**Derbyniadau Hunan Gynhyrchiol**

7.10 Rhaid i'r Awdurdod gynhyrchu incwm fel cyfraniad at y cyllid cyffredinol. Y targed ar gyfer derbyniadau hunan gynhyrchiol yw oddeutu £43 miliwn o warediadau a ffynonellau incwm eraill o natur cyfalaf a £6 miliwn o refeniw (e.e incwm rhent).

7.11 Daw'r rhan fwyaf o dderbyniadau cyfalaf a refeniw o bortffolio eiddo'r Awdurdod. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddeng mlynedd o werthu mwy nag a gwblhawyd o'r newydd, mae'n sail asedau'n crebachu ac rydym yn trafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch faint o dderbyniadau hunan gynhyrchiol a ddisgwylir ac effaith hynny ar ein cyllideb graidd.

7.12 Cymhlethwyd y sefyllfa gan strategaeth yr Awdurdod o symud o fod yn ddatblygwr uniongyrchol at rôl ble darperir canran gynyddol o brosiectau

eiddo gan y sector preifat, naill ai drwy gefnogaeth grant neu mewn cyd fentrau.

7.13 Rydym wedi nodi lefel uwch o dderbyniadau cyfalaf, £43 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unig, sy'n £15 miliwn drosodd ac yn uwch na Llinellau Gwariant Cyllideb yr Awdurdod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gynigion cyllideb terfynol. Sicrhawyd mewn egwyddor, gymeradwyaeth y Gweinidog dros Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau'r Cyhoedd i'r Awdurdod gadw derbyniadau ychwanegol er mwyn cyllido'r gweithgareddau yn y Cynllun hwn. Dim ond unwaith y gellir cael derbyniadau wrth waredu fel hyn ac ni ellir ei ail adrodd yn y blynyddoedd i ddod.

7.14 Rhaid i ni hefyd barhau i wneud y mwyaf o'r cyfleon ar gyfer defnyddio'r system gyfrifo Datblygu Tir a Gwasanaethau Cyfreithiol ar wahân ar gyfer caffaeliadau, gan gynnwys gwerth llyfr asedau'r Awdurdod.

## Costau Rheolwyr

7.15 Y flwyddyn ariannol 2003 / 04 oedd y flwyddyn lawn gyntaf y bu'r Awdurdod yn gweithredu o dan ddiffyniad diwygiedig MRC, sydd yn sylfaenol yn galluogi gwahanu costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ar ddarparu prosiect a'r rhai y gellid eu hystyried yn fwy priodol fel gwir orbenion. Mae'r trefniadau newydd wedi galluogi'r Awdurdod i ddarparu rhaglenni a gweithgareddau mewn modd mwy effeithiol ac ymatebol, tra'n sicrhau hefyd reolaeth cywir ac effeithiol ar gyfanswm y costau rhedeg. Ymarfer peilot oedd hwn ac yn ystod y flwyddyn ariannol 04 / 05 bydd yr Awdurdod yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i barhau gyda'r rhaglen i'r dyfodol.

## Effeithiolrwydd

7.16 Mae'r Cynllun hwn wedi pwysleisio'r pwysigrwydd a osodir gan yr Awdurdod ar wella'i effeithiolrwydd h.y. nodi a thargedu'i gwsmeriaid a chynorthwyo i ddarparu atebion sy'n cyfarfod â'u hanghenion, a gwneud y gorau o fuddsoddiad preifat. Rydym hefyd wedi gwneud yn glir y ffordd rydym yn ei gynnig ar gyfer blaenoriaethu'n gweithgareddau a gwella sut y mesurir y canlyniadau. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y dylid dod yn fwy effeithiol wrth ymdrin â'n cwsmeriaid ac yn y ffordd rydym yn gweithredu.

7.17 Bydd ein mentrau buddsoddi sector preifat ar gyfer datblygu safle ac eiddo'n cynnwys mesurau effeithiolrwydd megis trosglwyddo rheoli risg caffael contract a gosod llinyn fesur ar gyfer lefelau costau a rhenti adeiladu ar gyfer gwahanol fathau o eiddo a lleoliadau. Mae'r Strategaeth Eiddo'n nodi safleoedd an strategol ym mherchnogaeth yr Awdurdod. Ble bo'n briodol, ceisir cael defnydd amgen a gwaredu'r eiddo ar y farchnad agored.

7.18 Er mwyn gwella effeithiolrwydd mewnol, adolygir ein prosesau busnes allweddol yn drwyadl. Er mai newydd ei gychwyn mae hyn, disgwyliwn y canolbwyntir ar wella sut rydym yn rheoli ein perthynas â'r cwsmer, ar gynnyrch a gwasanaethau ac ar reoli prosiect, rheolaeth ariannol a rheoli perfformiad. Bydd eu cael i gydweithio a llifo'n hwylus a'u codio yn gofyn am ddatblygu systemau TG angenrheidiol. Enghreifftiau yw ICIS a Linktrack ar gyfer rheoli perthynas â'r Cwsmer, e.Fin ar gyfer rheolaeth ariannol a'r bas data tir ac eiddo, a PerMIS ar gyfer Rheoli Perfformiad. Rydym hefyd yn peilota system reoli dogfennau electronig ac yn cyflwyno System Gwybodaeth Daearyddol.

7.19 Bydd cysylltu system Rheoli Perthynas â'r Cwsmer gyda PerMIS yn galluogi'r Awdurdod i gymharu'r data a gasglir oddi wrth fusnesau sy'n derbyn cefnogaeth gydag allbynnau a ragwelir ar gyfer ein gweithgareddau cefnogi. Bydd hyn yn bwydo gwybodaeth i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch a ddylid parhau â'r gweithgareddau, cynyddu / lleihau'u graddfa, eu coethi neu gyflwyno mesurau cefnogi mwy addas. Bydd Cynlluniau Gweithredol yn y dyfodol yn cynnwys gweithrediadau mwy manwl er mwyn gwella effeithiolrwydd.

## Targedau a Pherfformiad

7.20 Mae'r Awdurdod yn grwpio'i weithgareddau, mesurau perfformiad ac allbynnau o amgylch yr anghenion a chyfleon sy'n wynebu'n cwsmeriaid allweddol, busnesau, cymunedau ac unigolion. Seilir y targedau y cytunwn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru pob blwyddyn beth y disgwyliwn ei gyflawni wrth ddarparu prosiectau a rhaglenni a gyllidir yn y Cynllun. Tanlinellir rhai targedau gweithredol allweddol o dan y prif Benawdau Cynllun Busnes yn y testun.

7.21 Fel y trafodwyd yn Adran 5, rhaid i ni fod yn fwy soffistigedig wrth fesur ein llwyddiant o gofio am yr amgylchiadau economaidd newidiol, gyda gwell ffocws ar anghenion ein cwsmeriaid a cydnabod fod angen mesurau gwell a mwy ansoddol er mwyn deall ein heffaith ar ychwanegu gwerth a chynyddu gallu.

7.22 Mae'r tabl drosodd yn dangos ein targedau ar gyfer 2004 / 05. Byddant yn cael ei adolygu a'i ail seilio ar ôl hanner blwyddyn.

7.23 Disgwylir y bydd yr Awdurdod yn cyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer y cynllun busnes blwyddyn 2003 / 04. Cyhoeddir y canlyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf. Mae'r gwahanaiethau rhwng y targedau ar gyfer 2003 / 04 a 2004 / 05 i'w priodoli i nifer o ffactorau:

a. Ni ellir ail adrodd yn ystod y flwyddyn i ddod brosiect buddsoddiad mawr unigol yn 2003 / 04.

b. Ymrwymiad i gael y budd mwyaf o Gronfeydd Strwythurol, wedi anelu yn y tymor hir at gynyddu gallu cymunedau ac ymysg yr economaidd segur.

c. Mae archwilio dulliau newydd o gyllido newydd ar gyfer darparu atebion eiddo yn gofyn am ddatblygu dull cadarn er mwyn lleihau'r peryglon a chael y fantais fwyaf i'r Awdurdod yn y tymor hir, gydag amser arweiniol cysylltiedig.

| Canlyniadau Strategol | Swyddi a Grëwyd | | Swyddi a Diogelwyd | | Buddsoddiad Cyfalaf / PSI £'000 | | Dechreuadau Newydd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed 03/04 | Targed 04/05 | Targed 03/04 | Targed 04/05 | Targed 03/04 | Targed 04/05 | Targed 03/04 | Targed 04/05 |
| Cefnogaeth ar gyfer Busesau | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gyffredinol | 6,500 | 8,650 | 2,035 | 2,220 | 16,030 | 11,860 | 4,000 | 4,200 |
| Cefnogaeth Arbenigol | 14,640 | 12,900 | 16,695 | 14,330 | 905,450 | 610,625 | 255 | 400 |
| Seilwaith Busnes | 1,050 | 430 | 820 | 80 | 53,650 | 33,490 | n/a | n/a |
| Cefnogaeth ar gyfer Cymunedau | 1,860 | 510 | 2,330 | 750 | 88,870 | 43,590 | 50 | 5 |
| Cefnogaeth ar gyfer Unigolion | 1,950 | 1,020 | 120 | 120 | 1,000 | 435 | 1,445 | 745 |
| Cyfanswm | 26,000 | 23,510 | 22,000 | 17,500 | 1,065,000 | 700,000 | 5,750 | 5,350 |
| Ar gyfer: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 14,000 | 14,140 | 13,000 | 10,600 | 365,000 | 550,000 | 2,890 | 3,000 |
| Dwyrain Cymru | 12,000 | 9,370 | 9,000 | 6,900 | 700,000 | 150,000 | 2,860 | 2,350 |

Diffiniadau:

- Swyddi a grëwyd: Y nifer gros o swyddi Cyfatebol Llawn Amser, ar gael ac wedi'u llenwi yng Nghymru, drwy ymyrraeth uniongyrchol gan yr Awdurdod, nad oedd ar gael o'r blaen.
- Swyddi a Ddiogelwyd:Y nifer gros o swyddi Cyfatebol Llawn Amser a fyddai wedi'u colli os na fyddai cefnogaeth yr Awdurdod wedi bod ar gael i'r sefydliad.
- Buddsoddiad Cyfalaf / Buddsoddiad Sector Preifat: cronfa sector preifat neu fuddsoddiad gwariant cyfalaf mewn asedau busnes gan gwmni a gafwyd drwy ymyrraeth uniongyrchol yr Awdurdod.
- Dechreuadau newydd: Y nifer o fusnesau newydd (gallai fod yn fasnachwyr unigol, partneriaeth, menter fychan, menter gymdeithasol neu gwmni) a ffurfiwyd gyda chymorth ymyrraeth yr Awdurdod (cyfalaf neu refeniw) nad oedd yn masnachu'n gynt.

# Blaenoriaethau Ar Gyfer Blynyddoedd 2 a 3

# 8

## Cyflwyniad

8.1 Mae'r adran hon yn amlinellu cefndir a'r hyn y bwriedir ei wneud ynghylch blaenoriaethu gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y ddwy flynedd nesaf, gan gadw mewn cof ffactorau allanol a mewnol sy'n dylanwadu ar hynny.

8.2 Gobeithiwn adeiladu ar y newid mewn blaenoriaethau a ddangoswyd ym Mlwyddyn 1 y Cynllun. Seilir hyn ar newid mawr ynghylch sut y mae'r Awdurdod yn cael ei adnoddau e.e. drwy gyflwyno trefniadau buddsoddi preifat newydd ac nid yw effaith hynny ar Flynyddoedd 2 a 3 yn glir hyd yma.

8.3 Bydd natur a graddfa ein gweithgareddau yn y dyfodol yn dibynnu ar faint o adnoddau fydd ar gael. Bydd raid i ni felly nodi'r meysydd ble gallwn gynyddu ein gweithgaredd ac yr un pryd benderfynu ble gallwn ostwng neu roi'r gorau i raglenni presennol.

## Ffactorau Dylanwadol Allanol

8.4 Amcanion Llywodraeth y Cynulliad yn 'Cymru: Gwlad Well' fydd yn dylanwadu fwyaf ar bolisi:

- Cael mwy o bobl i waith
- Gwella iechyd
- Cymunedau cryfach a diogelach
- Swyddi a sgiliau gwell

8.5 Mae'r rhain yn greiddiol i'n hagenda segurdod economaidd a'r angenrheidrwydd parhausi gynyddu a gwasgaru llwyddiant. Byddwn yn dangos ym mlynyddoedd 2 a 3 y cynllun y rôl allai'r Awdurdod ei chwarae gyda'i bartneriaid wrth symud yr agenda hon yn ei blaen yn ogystal â symud pobl a busnesau i fyny'r gadwyn werth.

8.6 Dylanwadir ar osod ein blaenoriaethau hefyd gan nifer o bolisïau atodol megis y Cynllun Gweithredu Arloesedd a'r Cynllun Gweithredu Amgylchedd Fusnes. Bydd Cynllun Gofodol Cymru, sy'n datblygu, a'r Strategaethau Datblygu Economaidd Rhanbarthol a'r Strategaethau Cymunedol yn dylanwadu ar flaenoriaethu ac ar gymysgedd ein gweithgareddau ledled Cymru ym Mlynyddoedd 2 a 3.

8.7 Mae nifer o heriau economaidd yn wynebu Cymru, er enghraifft globaleiddio cynyddol ac ehangiad yr Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn gosod rhagor o bwysau ar fusnesau gweithgynhyrchu yn enwedig i wella eu cystadleuedd. Yn ogystal â'r angen i gynyddu cystadleuedd busnesau Cymru mae cefnogaeth yr Awdurdod yn hanfodol er mwyn i fusnesau newydd oroesi a thyfu ac mae'n hanfodol hefyd ddenu buddsoddiad mewnol.

8.8 Daw'r rownd bresennol o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i ben yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn fater allweddol gan fod lefel yr incwm Ewropeaidd mae'r Awdurdod wedi'i ddenu wedi arwain at newid mawr yn lefel ein gweithgareddau na ellir eu cynnal ar ôl 2006. Arian cyfatebol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad yw'r dewis diwethaf o gyllid. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn nodi'r gweithgareddau hynny a ddaw a'r budd economaidd mwyaf a dal i chwilio am ffynonellau eraill o gyllid. Mae'r un mor bwysig nodi a rhoi'r gorau i raglenni sydd wedi cyflawni eu potensial.

8.9 Rydym yn rhagdybio y bydd lefel y Cymorth Grant yn sefydlog dros gyfnod y cynllun ond rydym hefyd yn cydnabod y gallai ffactorau megis Ymarfer Gwerthuso Adolygu Gwariant effeithio ar ein cyllid yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ar gyfer, a bod yn rhan o'r, broses.

## Ffactorau Dylanwadol Allanol

8.10 Cafwyd dulliau mwy gwybodus o benderfynu ym Mlwyddyn 1 y Cynllun drwy ddefnyddio dull newydd o fesur faint o werth uniongyrchol y mae ein gweithgareddau'n eu hychwanegu. Mireinir y mesur hwn a'i ddefnyddio eto ym Mlwyddyn 2 a 3. Dylanwadir ar ein gallu i gynyddu ein gweithgareddau yn y tymor hir gan ganlyniad astudiaeth o Gynllun Gweithredu De Ceredigion. Ychwanegir hefyd raglen o werthuso a chynigion ar gyfer datblygu dulliau mwy addas o fesur perfformiad.

8.11 Wrth benderfynu ar faint o gyllid ddylid ei ddyrannu ar gyfer gweithgareddau adfywio trefol a gwledig ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun roeddem yn cydnabod fod angen dull mwy strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac felly rydym yn paratoi Strategaeth Adfywio Cymru Gyfan yr Awdurdod, gyda lleoliadau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi.

8.12 Tanlinellodd y gwaith ar segmentau a sectorau yr angen i ddal i resymoli cynnyrch gan roi'r gorau i rai gweithgareddau'n drefnus.

8.13 Bydd ein hadolygiad o Ddatblygiad a Dyluniad Sefydliadol yn symud yr Awdurdod tuag at effeithiolrwydd optimaidd – yn cael ei arwain gan

strategaeth, canolbwynt ar y cwsmer a gwneud y defnydd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

8.14 O gofio natur gweithgareddau'r Awdurdod mae'n dilyn fod peth ymrwymiad cytundebol yn disgyn i flynyddoedd 2 a 3. Felly, nid yw ailflaenoriaethu yn fater syml o 'gau'r tap'. Hefyd, ffrwynir gallu'r Awdurdod i symud gan ei ymrwymiadau cyllidol megis Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd, Menter Cyllid Preifat Rhodfa Bute, Cwpan Ryder a Rali Cymru. Mae gennym gyfrifoldebau hefyd i gyfarfod â'r gofynion diogelwch lleiaf ar nifer o brosiectau adfer tir.

8.15 Tynnodd Llywodraeth y Cynulliad sawl elfen allan o'n Cymorth Grant a Llythyr Cylch Gwaith eleni a oedd wedi'u corlannu. Cynyddodd hyn ein hyblygrwydd a byddem yn croesawu symudiadau pellach i'r cyfeiriad hwn.

8.16 Gyrrir gweithgareddau eiddo'r Awdurdod gan y Strategaeth Eiddo Gymru Gyfan newydd a fydd yn gwneud y gorau o fuddsoddiadau preifat ac yn sicrhau cyfartaledd buddsoddiad teg rhwng Dwyrain a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, o gofio ei bod yn haws denu buddsoddiadau preifat i Ddwyrain Cymru. Yn wir, bydd llawer o weithgareddau datblygu eiddo a safleoedd yr Awdurdod yn cael eu cyllido gan un neu ragor o'r trefniadau cyllid preifat newydd a gychwynnwyd ym Mlwyddyn 1 y Cynllun.

## Blaenoriaethau Blynyddoedd 2 a 3

8.17 Yn seiliedig ar y ffactorau dylanwadol uchod disgrifir ein prif flaenoriaethau ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 isod. Ble bo'n addas, rydym wedi tanlinellu'r blaenoriaethau penodol fel y maent yn berthnasol i brif benawdau datblygu economaidd a fabwysiadwyd ar gyfer yr Ymarfer Gwerthuso Adolygu Gwariant.

8.18 yddwn hefyd yn dilyn y blaenoriaethau cyffredinol canlynol drwy gydol ein gweithgareddau, yn benodol:

- Cynyddu a lledaenu ffyniant ledled Cymru
- Cynyddu adnoddau i gefnogi lleihau segurdod economaidd.
- Datblygu dulliau yn fwy seiliedig ar dystiolaeth wrth helpu busnesau a dargedir yn well i symud i fyny'r gadwyn werth.
- Canolbwyntio ein hymdrechion marchnata ar dargedu cwsmeriaid y bydd cefnogaeth gyhoeddus yn gwneud gwahaniaeth iddynt ellir ei weld.
- Rhesymoli ymhellach eich cynnyrch a'n gwasanaethau, gan gynnwys tynnu allan pan yn addas, a chyflwyno'n raddol gefnogaeth fusnes arbenigol a hyblyg.

- Chware rhan ddylanwadol a hyrwyddol gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat ynghylch penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol, gan dynnu ar ein gwybodaeth o'r farchnad, ein perthynas gyda'n cwsmeriaid a rhwydweithiau.

Hyrwyddo Arloesedd

- Cyfathrebu manteision arloesedd
- Darparu cyngor arolesedd a thechnegol arbenigol a mentora
- Cael yr effaith fwyaf o academia
- Cefnogi trosglwyddo technoleg ac amddiffyn a masnacheiddio Hawliau Eiddo Deallusol
- Darparu cyllid ar gyfer Ymchwil a Datblygu a datblygu cynnyrch a phrosesau newydd gyda grantiau a ffynonellau allanol
- Gweithredu argymhellion y rhaglen Dyfodol
- Cefnogi sectorau, rhwydweithiau a ffora uwch dechnoleg
- Darpariaethau arbenigol a chefnogaeth i arloesedd a chanolfannau deori

Hyrwyddo Entrepreneuriaeth

- Newid diwylliannol a chodi ymwybyddiaeth er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth
- Hyrwyddo sefydlu busnesau cynaliadwy
- Sicrhau fod entrepreneuriaeth yn cael ei hyrwyddo a'i gefnogi ym mhob rhan o'r gymuned yng Nghymru
- Darparu gwybodaeth a gwasanaeth arwydd i bob busnes
- Darparu'r lefel briodol o gyngor, rheolaeth cyfrifon a mentora i fusnesau gyda photensial
- Hyrwyddo mynediad at gefnogaeth arbenigol i fusnesau gyda photensial

Hyrwyddo ymarfer gorau i fusnesau yng Nghymru

Seilwaith – Telegyfathrebu a Rhaglenni Eraill

- Hyrwyddo TGCh a dal i gefnogi Llywodraeth y Cynulliad wrth ddarparu Cymru ar Lein
- Hyrwyddo crynhoi'r gofyn yn y sector cyhoeddus am fand eang
- Cysylltu gyda chwmnïau cyfleustodau preifat i gyfunioni eu cynlluniau buddsoddi gyda'r cynigion datblygu y Strategaeth Eiddo Cymru Gyfan.

### Rhaglen Pecynnau Adfywio (Ardal, Amgylcheddol)

- Datblygu dull strategol wedi'i flaenoriaethu ar gyfer adfywio ardaloedd anghenus a chyfleon ledled Cymru, darparu sail resymegol i'r Asiantaeth ar gyfer cytuno lefelau ei gymorth gyda'i bartneriaid

### Rhaglen Hyrwyddo a Gweithgaredd Dramor

- Ymdrechu i gynnal a gwella ein rhan o fuddsoddiad tramor uniongyrchol drwy dargedu sectorau a marchnadoedd allweddol ac asesu'n barhaus
- Fel rhan o ymarfer busnes da ac er mwyn adlewyrchu'r dulliau a fabwysiadwye ers sawl blwyddyn, dal i asesu'n rheolaidd ein gweithgareddau dramor, yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu cymorth yn y farchnad.

### Cefnogaeth Ariannol ar gyfer Creu / Amddiffyn Swyddi

- Cysylltu gyda swyddogion y Cynulliad o'r cychwyn er mwyn sicrhau cefnogaeth gyflenwol ar gyfer creu gwaith a diogelu cynigion oddi wrth fusnesau e.e. ceisiadau am Gymorth Rhanbarthol Dewisol.
- Hyrwyddo cefnogaeth Cyllid Cymru yn fuan ar gyfer busnesau newydd a rhai presennol wrth geisio am gyllid ar gyfer buddsoddi ac ymestyn gyda'r gefnogaeth reolaethol briodol.

### Rhaglen Cronfeydd Strwythurol

- Cael y mwyaf posibl o gyllid yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig ar gyfer prosiectau strategol ac wrth ddarparu'r Strategaeth Eiddo Cymru Gyfan.

### Elfennau Amrywiol (Ynni a'r Amgylchedd, ERAP)

- Helpu i sefydlu cyfeiriad newydd yng Nghymru, byddwn yn chwarae rhan lawn mewn datblygu sector ynni adnewyddol gan gynnwys masnacheiddio technoleg newydd a hyrwyddo effeithioldeb ynni mewn busnesau
- Cefnogi datblygu prosiectau ynni mawr gan gynnwys cynhyrchu a seilwaith trosglwyddiad
- Hyrwyddo datblygu'r gadwyn gyflenwi ynni ymhellach yng Nghymru.

Atodiad A

## CYNLLUN GWEITHREDU 2004/05

## CRYNODEB O INCWM

| | Cyllideb Ddiwygiedig 2003/04 £k | Cylllideb Arfaethedig 2004/05 £k | |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Cyllid Grant y Cynulliad | 207,622 | 208,791 | |
| Cylid Prosiect y Cynulliad wedi'i gorlannu | 43,942 | 43,549 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 41,100 | 43,000 | |
| Derbyniadau Refeniw | 7,500 | 6,000 | |
| Cyllid Cyfatebol y Cynulliad / P2P | 21,000 | 10,000 | * |
| Derbyniadau Ewropeaidd | 35,658 | 41,022 | |
| **Cyfanswm(ag eithrio'r Gyfadran Dir) (** | **356,822** | **352,362** | |
| Y Gyfadran Dir | 24,000 | 30,000 | |
| **Cyfanswm Incwm yr Awdurdod** | **380,822** | **382,362** | |

*Rhagdybiaethau Cynllunio

Atodiad B

**CYNLLUN GWEITHREDOL 2004/05**

**CRYNODEB O WARIANT**

| | **Cyllideb Ddiwygiedig 2003/04 £k** | **Cyllideb Arfaethedig 2004/05 £k** |
|---|---|---|
| **GWARIANT** | | |
| Gwaraint Rhaglenni | 287,304 | 282,758 |
| Costau Gorbenion Rheolaethol | 31,059 | 31,049 |
| Trethiant | 3,500 | 3,596 |
| Diffyg NLF | 1,800 | 1,800 |
| Costau Cyfalaf | 33,159 | 33,159 |
| **Cyfanswm (ag eithrio'r Gyfadran Tir)** | **356,822** | **352,362** |
| Cyfadran Tir | 21,550 | 27,030 |
| Cyfadran Tir - Gorbenion Rheolaethol | 2,450 | 2,970 |
| **Cyfanswm Incwm yr Awdurdod** | **380,822** | **382,362** |

Atodiad C

| Cefnogaeth ar gyfer Busnesau 2004/05 | Cyfanswm £k |
|---|---|
| **Cefnogaeth Cyffredinol** | |
| Rhaglenni Datblygu Menter | 20,306 |
| Llygad Busnes | 5,536 |
| Graddfa Geni Busnes | 6,215 |
| **Cefnogaeth Arbennigol / Sectorau Allweddol** | |
| Cadwyni a Rhwydweithiau Cyflenwad | 6,666 |
| Arloesedd a Thechnoleg | 39,025 |
| Cymdeithas Gwybodaeth | 7,554 |
| Cyllid Cymru | 6,822 |
| Bwyd | 22,693 |
| Eiddo Arbennigol (Busnes yng Nghymru) | 19,077 |
| Eiddo Arbennigol (Busnes yn symud i mewn i Gymru) | 940 |
| **Seilwaith Busnes** | |
| Telegyfathrebu | 250 |
| Blaen Eiddo | 15,089 |
| Datblygu Safle | 13,504 |
| Partneriaethau Diwydiannol Cymru | 1,000 |
| Rhodfa Bute | 6,090 |
| **Cefnogi Cymunedau** | |
| Gwelliant Amgylcheddol | 4,445 |
| Adfer Tir | 15,990 |
| Adnewyddu Trefol a Gwledig | 27,140 |
| Cynnal Cymunedau | 3,885 |
| **Cefnogaeth ar gyfer Unigolion** | |
| Cyfranogaeth | 11,874 |
| **Rhaglenni Corfforaethol** | |
| Costau Rheolaethol Gweithrediadau | 12,153 |
| Cynhyrchu FDI | 6,485 |
| Marchnata | 10,000 |
| Cynllunio Strategol | 6,298 |
| Partneriaethau Cronfeydd Strwythurol | 1,225 |
| Rheoli Eiddo | 3,996 |
| **Is Gyfanswm** | **274,258** |
| | |
| **Darpariaeth** | **8,500** |
| **Cyfanswm Gwariant y Rhaglen** | **282,758** |
| Gorbenion Rheolaethol | 31,049 |
| TAW / Trethiant | 3,596 |
| Diffyg NLF | 1,800 |
| Costau Cyfalaf | 33,159 |
| | |
| **Cyfanswm yr holl Rhaglenni** | **352,362** |